# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 319

Mai 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## Cerddor Buddugol

Eilir Pryse, Aberystwyth, enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch eleni. Gweler mwy o hanes ar t.12



## 550fed Disgybl!



Steffan James, Penrhyn-coch, yw y 550fed plentyn i ymuno â Chylch Meithrin Trefeurig. Bu tad Steffan, Sion, yn ddisgybl yn y Cylch ar ddechau'r wythdegau ac yn cynorthwyo Edwina Davies a Gwenan Price yno am rhyw 2-3 blynedd ar ddiwedd y 90au. Pob hwyl i Steffan sydd wedi setlo i lawr yn dda gyda'r disgyblion eraill.

## Bardd Buddugol



Osian Rowlands, Llandwrog, yn cael ei gadeirio yn Eisteddfod Gadaeiriol Penrhyn-coch — gweler mwy o'i hanes ar t.12.

templatelliw.indd 1 19/5/09 10:17:53

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 319 | Mai 2009



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan,
Felin Ddewi, 4 Glanceulan, Penrhyn-coch
☎ 820 583 bevan.paul@gmail.com

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MEHEFIN 4** A **MEHEFIN 5** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **MEHEFIN 18**

**MAI 21** Nos Iau Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Tŷ Bernarda Alba yn Theatr Canolfan y Celfyddydau am 7.30.

**MAI 22** Nos Wener Noson goffi Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau o 7.00 - 9.00.

**MAI 22** Nos Wener Noswaith gymdeithasol yn y Druid, Goginan i godi pres at apêl Eisteddfod yr Urdd 2010.

**MAI 23** Nos Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 6 pm - 8.30 pm. Croeso cynnes.

**MAI 25-30** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2009 Canolfan y Mileniwm.

**MEHEFIN 4** Dydd Iau Etholiad Seneddol Ewropeaidd. Y blychau ar agor o 7.00 y bore hyd 10.00 y nos.

**MEHEFIN 5** Nos Wener Te Bethlehem, Llandre am 6.30

**MEHEFIN 10** Dydd Mercher Trip hanner diwrnod Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street i ardal Aberdyfi; cychwyn am 1.00.

**MEHEFIN 13** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Ynys Môn yng nghwmni Gwilym Trefor Jones. Cysyllter â Ceris Gruffudd am fwy o fanylion (828017)

**MEHEFIN 13** Dydd Sadwrn Sioe Sir Ceredigion Aberystwyth ar Gaeau Gelli Angharad, Capel Bnaor. Am fanylion a schedule cysyllter â Mrs Edwina Evans, Isallt, 6 Maes y Drindod, Aberystwyth. Ffôn 617 143 hefyd www.sioeaberystwyth.com

**MEHEFIN 17** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30.

**MEHEFIN 17** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30. Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010. Croeso Cynnes i bawb

**MEHEFIN 18** Nos Iau Cyfarfod PACT Plwyf Trefeurig yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00.

**MEHEFIN 19** Nos Wener Ffrindiau Cartref Tregerddan - Barbeciw yn y Cartref am 6.30.

## "Y Tincer ar dâp"

Mae'n siwr bod rhan fwyaf o ddarllenwyr *Y Tincer* wedi sylwi, wrth ddarllen colofnau ail dudalen y papur yn fisol, ar y rhan "Tincer ar dâp". Gwasanaeth yw hwn lle darperir rhai o brif straeon y papur ar gasèt i'r rhai sydd â'u golwg yn pallu. Bu Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, ynghyd â Bryn ei gŵr, yn gyfrifol am y gwasanaeth hwn yn fisol i rai o ddarllenwyr *Y Tincer* dros nifer o flynyddoedd, yn recordio'r straeon ar dâp sain, copïo'r tâp, a dosbarthu'r copiau trwy'r post, ond oherwydd anhwylder, mae Mrs Lloyd am roi'r gorau i'r gwaith. Dymuna pwyllgor *Y Tincer* ddiolch yn fawr i Vera a Bryn am eu cyfraniad dros y blynyddoedd. Rydym yn sicr bod y rheiny sydd wedi derbyn y tapiau yn gwerthfawrogi eu gwaith yn fawr iawn.

Tra'n diolch i Vera a Bryn Lloyd, ac yn dymuno gwellhad buan i Vera, rydym ar yr un pryd yn edrych am wirfoddolwr, gwirfoddolwraig neu wirfoddolwyr, i barhau â'r gwasanaeth pwysig hwn. Beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, plis cysylltwch ag Anwen, ysgrifennydd *Y Tincer* (anwenmai@hotmail.co.uk, **01970 632816**) am fwy o fanylion.

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr mis Ebrill 2009.

£25 (Rhif 113) Elena Davies, Bronallt, Llandre.
£15 (Rhif 95) Eddie Jenkins, Eryl, Llandre.
£10 (Rhif 100) Cynog Dafis, Cedrwydd, Llandre.
Tynnwyd y rhifau buddugol gan ein golygydd yn dilyn ymarfer Cantre'r Gwaelod Nos Sul y 26ain Ebrill.
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2009.pdf

Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Coedlan Plas-crug
Aberystwyth
SY23 1HL

Annwyl Olygydd
Gwerthfawrogwn yn fawr pe gallem drwy golofnau eich papur bro dynnu sylw eich darllenwyr at ddigwyddiad o bwys yn hanes Ysgol Gymraeg Aberystwyth eleni.

Bydd yr ysgol – sef yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru – yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ym mis Medi 2009 ac mae'r staff a'r Gymdeithas Rhieni Athrawon yn awyddus i nodi'r achlysur. Bydd prynhawn agored yn cael ei gynnal yn yr Ysgol ddydd Gwener, 25 Medi gan roi'r cyfle i rieni, cyn-ddisgyblion, cyn-athrawon a chyfeillion yr ysgol weld yr ysgol ar waith a mwynhau nifer o weithgareddau hwyliog a lluniaeth ysgafn wrth hel atgofion am yr hen ddyddiau. Rydym yn awyddus iawn i groesawu cynifer â phosib i ymuno â ni i ddathlu'r garreg filltir arbennig hon ac yn mawr obeithio y bydd darllenwyr eich papur bro yn eu plith.

Mae pob croeso i chi gysylltu â mi (01970-624615 / broniarth@hotmail.com / Broniarth, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, SY23 2EE) neu â'r Ysgol (01970-617613) os hoffech gael mwy o wybodaeth yn nes at yr amser, ond am y tro, cofiwch gadw'r diwrnod yn rhydd! Bydd croeso cynnes i bawb.

Yn gywir

Tegwen Morris
Cadeirydd Cymdeithas Rhieni Ac Athrawon Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Annwyl Olygydd

**Cynllun Tocyn Tacsi CAVO**
Fel cydlynydd Cynllun Tocyn Tacsi CAVO, rwy'n derbyn nifer o alwadau ynghylch beth sy'n digwydd i'r Cynllun eleni. Aethom i Gaerdydd y bwyso ar y Cynulliad i ariannu'r Cynllun eto eleni, a chawsom gadarnhad o hyn ar ddechrau mis Mawrth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ariannu'r Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach, ond maent yn gofyn am rai newidiadau i'r ffordd rydym yn gweinyddu'r Cynllun ac i'r meini prawf o bobl sy'n gymwys. Rydym wrthi'n brysur yn gwneud y newidiadau yma, ond mi gymrith tua pedair wythnos i baratoi a chadarnhau'r newidiadau. Unwaith mae'r gwaith hyn wedi ei wneud, byddwn yn danfon rhagor o wybodaeth a'r pecynnau cais i bawb dderbyniodd tocynnau tacsi llynedd ac i bobl sydd wedi gofyn am becyn cais eleni.

Bydd pawb gafodd docynnau tacsi llynedd yn derbyn pecyn cais pan fydd yn barod. Os na chawsoch docynnau tacsi llynedd, neu dyma'r tro cyntaf i chi wneud cais am docynnau tacsi, yna cysylltwch â'r swyddfa ar 0845 408 0140, neu e-bostiwch enid@cavo.org.uk, neu danfonwch lythyr i CAVO CT, Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB. Bydd pob cais yn cael ei werthuso yn ôl y meini prawf ac anghenion yr ymgeisydd.

Yr eiddoch yn gywir
E Heneghan
Cydlynydd y Cynllun

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer.
Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

## Stori Sydyn
Hawdd eu codi, anodd eu rhoi i lawr

## Cyfle i ennill llyfrau gwych!

Cyfres o lyfrau byr a bachog yw'r gyfres Stori Sydyn, ac mae'r llyfrau wedi'u hysgrifennu'n benodol ar gyfer oedolion sy'n egin-ddarllenwyr, y sawl sydd wedi colli'r arfer o ddarllen neu unrhyw un sy'n chwilio am lyfr i'w ddarllen yn sydyn.

Menter ar y cyd rhwng Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru yw'r gyfres ac fe gyhoeddwyd pedair cyfrol newydd eleni.

Mae yna ddwy gyfrol hunangofiannol gan Shane Williams ac Owain Tudur Jones. Rhwng cloriau *Ar Ben y Byd* cawn rannu gwefr llwyddiannau Shane yn 2008, ac mae *Fyny Gyda'r Swans* yn rhoi cipolwg ar gyffro bywyd pêl-droediwr ifanc. Mae *Bywyd yn y Coal House*: y teulu Griffiths yn sôn am brofiadau'r teulu o Aberteifi a fu'n rhan o'r gyfres deledu ac yn *Peter Moore: y gwaethaf o'r gwaethaf* ceir hanes un o lofruddion gwaethaf Cymru.

Mae cyfle i chi ennill set o'r teitlau diweddaraf yma drwy ateb cwestiwn syml iawn!

Pa ddau chwaraewr adnabyddus sydd wedi ysgrifennu Stori Sydyn eleni?

Anfonwch yr ateb, eich enw a'ch cyfeiriad at y Golygydd mor fuan â phosib. Y cyntaf i'r felin fydd yn ennill y llyfrau!




GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# Y BORTH

## Boreau Coffi

Ni fu rhaid i neb yn Y Borth farw o syched yn ystod y mis diweddar. Bu digonedd o foreau coffi ar gael i fodloni pawb.

Dydd Llun y Pasg, 13 Ebrill, codwyd dros £219 o ganlyniad i fore coffi yn Nhafarn "Ceffyl y Môr" ar ran Eglwys Sant Mathew. Y dydd Sadwrn dilynol, ar y 18fed o Ebrill, cynhaliwyd dau fore coffi, y naill yn y Neuadd Gymunedol er budd y Democratiaid Rhyddfrydol ynghyd a Chanser y Colon, a'r llall yn "Ceffyl y Môr" wedi'i drefnu gan y Cynghrair Gwarchod Cathod. Dydd Llun Gŵyl y Banc, 4 Mai, fe gafwyd bore coffi eto yn Nhafarn "Ceffyl y Môr", at elw'r Lleng Brydeinig a Chronfa Organ Eglwys Sant Mathew.

Yn ychwanegol i hyn oll, fe gynhaliwyd Ffair y Pasg yn Ysgol Craig yr Wylfa, brynhawn dydd Sadwrn, 4 Ebrill. Nodwyd Dydd ANZAC gan Leng Brydeinig Y Borth gyda chinio yng Nghlwb Golff Y Borth ac Ynys-las, nos Sadwrn, 25 Ebrill, a chynhaliwyd swper "Pysgod a Sglodion" yn "Ceffyl y Môr", nos Wener, 1 Mai, er budd yr RNLI.

Diolch i bawb a gefnogodd yr achlysuron hyn ac yn arbennig i Margaret a Glynne yn "Ceffyl y Môr" am eu croeso cyson a'i haelioni tuag at elusennau lleol.

## RNLI

Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol yr RNLI yng Ngorsaf Bad Achub Y Borth, nos Wener, 17 Ebrill. Y Llywydd, Mr Paul Frost, oedd yn y Gadair.

Derbyniwyd adroddiadau gan Miss Gill Parry (Ysgrifenyddes), Mrs Margaret Griffiths (Cadeirydd Pwyllgor y Merched), a Mr Glynne Evans (Trysorydd).
Edrychodd Mr Ronnie Davies (Ysgrifennydd Anrhydeddus) yn ôl dros ysgwydd blwyddyn a welodd y Bad Achub a'r Criw wedi ymgartefu, o'r diwedd, yn yr Orsaf newydd ysplennydd. Bu 25 o lansiadau yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i alwadau cyfyngder. Y mae dau aelod a hugain yn y Criw ar hyn o bryd, gan gynnwys pump sydd newydd eu hymuno.

Gan nad oedd etholiadau eleni, fe ddaeth Mr Paul Frost a'r cyfarfod i ben, gan ddiolch i bawb am eu gwaith caled yn ystod blwyddyn cofiadwy.

## Pen blwydd Hapus

Mae Mr Dirk Lloyd, Frondirion, yn hoff o ddweud mai ef yw'r dyn hynaf yn Y Borth a gafodd ei eni yn y pentref. Ac felly y mae. Ganwyd Dirk yn "Resolute", Stryd Fawr y Borth, ar y 4ydd o Fai, 1918, yn aelod o un o deuluoedd hynaf a mwyaf adnabyddus Y Borth. Er hynny, y mae'n falch o ddweud, hefyd, ei fod yn hanner Iseldiraidd, ar ochr ei fam. Wedi'i addysgu yn hen Ysgol Fwrdd Addysg Y Borth, fe wasanaethodd Dirk



yn y Llynges Fasnachol pan oedd yn llanc ifanc, cyn dychwelyd i weithio i hen Gwmni Trydan Y Borth. Adeg yr Ail Ryfel Byd, fe weithiodd mewn ffatri Arfau Rhyfel ac wedyn i Gwmni Opteg yng Nghanolbarth Lloegr, lle cwrddodd a phriodi a'i wraig ddiweddar, Marion. Dychwelodd yn y rhawg i'r Borth, lle gweithiodd, am flynyddoedd, i Swyddfa'r Post. Dathlodd Dirk ei ben blwydd yn 91 oed gyda chinio yng Nghaffi "Boulders" ar y 5ed o Fai, yng nghwmni ei chwaer Gwen (sydd ei hunan yn 95 oed) a ffrindiau lawer. Llongyfarchiadau iddo a phob dymuniad da.

Pen blwydd hapus hefyd i Roy Jones, Siop Bapurau, a ddathlodd yntau pen blwydd arbennig yn ddiweddar!

## Clwb yr Henoed

Bu Clwb yr Henoed yn "chwarae oddi cartref" yn ystod mis Ebrill. Dydd Iau, 9 Ebrill, aeth aelodau ar daith dywysedig o'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth. Gwelwyd ffilm am hanes a gwaith y Llyfrgell cyn ymweld â'r ystafelloedd lle cedwir stor enfawr o luniau a defnydd archifol. Daeth yr ymweliad i ben yn yr arddangosfa drawiadol o waith John Meirion Morris. Ni fyddai unrhyw wibdaith yn gyflawn heb 'baned o de, ac fe fwynhawyd lluniaeth ysgafn ym Mhendinas, cyn troi tua thref.

Gwibdaith mewn bws a fwynhawyd ddydd Iau, 23 Ebrill. Ar ddiwrnod braf o Wanwyn, fe deithiodd llond bws o aelodau dros y bryniau hardd o gwmpas Llyn Clywedog i Lanidloes, lle cafwyd coffi a chinio. Dychwelodd y teithwyr i Fachynlleth yn y prynhawn a mwynhau te yn yr heulwen yn ngardd y Llew Gwyn.

Diolch i Joy Cook a Graham Taylor a drefnodd y ddwy wibdaith.

## Sefydliad y Merched

Jo Jones oedd yn y Gadair yng nghyfarfod SYM yn Neuadd Gymunedol Y Borth, nos Fercher, 1 Ebrill. Cafwyd sgwrs arbennig o ddiddorol gan Wendy Farrier, ar y pwnc, "Wigiau i'r Theatr". Dechreuodd Wendy ei gyrfa gyda Madame Tussauds, gan weithio ar y modelau cwyr yng Nghastell Warwick. Fe aeth ymlaen i wneud wigiau i sioeau llwyddiannus yn Llundain gan gynnwys "Phantom of the Opera" a "Cabaret". Erbyn hyn mae Wendy yn dysgu'r grefft i fyfyrwyr yng Nghanolfan y Celfyddydau Perfformio yn Aberystwyth. Diolchwyd iddi gan Pat Pearson.

Cafwyd siaradwraig fywiog a ddifyr arall nos Iau, 15 Ebrill, ym mherson Melanie (Mel) Richards. Mel oedd y ferch gyntaf oll i wasanaethu gyda'r Gwasanaeth Tân yn Swydd Amwythig. Er bod y gwaith yn galed a heb unrhyw gonsesiynau i'w rhyw (roedd rhaid iddi fwyta, cysgu a newid dillad yn yr un ystafell a'r dynion), fe dreuliodd Mel ddeng mlynedd hapus gyda'r Gwasanaeth. Erbyn hyn, a chyda theulu i ofalu amdano, mae hi'n gweithio gyda cheffylau, gan arbenigo mewn trin problemau'r carn. Diolchwyd iddi gan y Cadeirydd, Jo Jones.

## Genedigaeth

Llongyfarchion i Heulwen a Gwynfor Lewis, Pen-y-wern, ar ddod yn Dat-cu a Mam-gu am y seithfed waith. Ganwyd bachgen bach i Gaynor, eu merch, a'i gŵr Emyr ym Mhen-y-garn, ac mae Elen, y chwaer "fawr" ! yn meddwl y byd o'i brawd bach newydd.
Genedigaeth.

## Marathon Llundain

Roedd balchder yn y cylch o wybod fod pump gyda chysylltiadau lleol wedi rhedeg ym Marathon Llundain Ddydd Sul, 26ain o Ebrill. Buont i gyd yn llwyddiannus ac wedi gorffen mewn amser da, dau o gymdogion ar y Graig, sef Geraint Evans a Kevin Ashford, a Nigel Hughes o Ddôl-y-bont, y tri yn rhedeg er budd Ymchwil Cancr, ac Alun a Carwyn, dau fab Eurgain Rowlands, Hafod Heli, - Alun yn rhedeg i godi arian tuag at Ysbyty Great Ormond Street, a Carwyn at Glefyd Parkinson.

## Salwch

Pob dymuniad da i John James, Moelcerni, sy'n dal yn glaf yn Ysbyty Bron-glais wedi llawdriniaeth lem. Yn gydymaith iddo yn yr un Ward am gyfnod oedd Peter Fleming, a fu mor anffodus a gorfod dychwelyd i'r Ysbyty am y drydedd tro i gael triniaeth ar y bigwrn a dorrwyd tua deufis yn ôl.
Dymunir gwellhad llwyr a buan i'r ddau.

## Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Daeth y cyfarfodydd i ben gyda Chinio Gŵyl Ddewi hwylus a llwyddiannus, ac edrychir ymlaen yn awr at y trip blynyddol ar Fehefin

24ain. Gwyn ac Eryl Evans yn unig sy'n gwybod ble bydd y bws yn mynd. Mae'r manylion ar gael oddi wrthynt ar rif ffon 820 778, neu oddi wrth Mrs Nansi Hayes, sydd hefyd a'r fwydlen ar gyfer y pryd o fwyd a geir ar y ffordd yn ôl. Gellwch gysylltu a hi ar rif ffôn: 871 255.

### Cymorth Cristnogol

Cynhelir Bore Coffi er budd Cymorth Cristnogol yn Neuadd Gymunedol y Borth ddydd Gwener, 12 Mehefin, gan ddechrau am 10 o'r gloch. Dewch yn llu i gefnogi achos mor dda.

Y Dydd Sul dilynol, sef 14 Mehefin, mewn cyswllt â Chymorth Cristnogol, cynhelir Gwasanaeth eciwmenaidd, dwyieithog, yng Nghapel y Gerlan am 6.30 y nos. Croeso i bawb.

# LLANDRE

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Tom Williams, Greenbank, a fu yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Hefyd i Ruth Griffiths, Gwyn Garreg sydd wedi bod yn yr ysbyty.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â: Gwladys James, Brynllys, a'r teulu ar golli ei chwaer a brawd-yng-nghyfraith mewn damwain car erchyll.
Mrs G Evans, 8 Maeshenllan a'r teulu ar golli ei mham yng Nghaerfyrddin.

May Davies, Brynhyfryd ar golli ei brawd-yng-nghyfraith, Mr John Davies, Bow Street.
Mr Phillips, (Maeshenllan gynt) Caer Felin, ar golli ei wraig yn ddiweddar.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwladys James, Brynllys, ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Ganwyd merch fach i Paul a Louise.

### Croeso i Landre

Croeso i Mr a Mrs Pearson a Connor sydd wedi symud i Darren Villa. Hefyd llongyfarchiadau ar enedigaeth merch fach, Rhian, dechrau'r mis.

### Te Bethlehem

Cynhelir Te Bethlehem Nos Wener 5ed o Fehefin am 6.30 yr hwyr.

# MADOG

**Suliau Mehefin - Madog**
**2 o'r gloch**
7 Aled Lewis Evans
14 Steffan Jones
21 Bugail
28 J.R. Jenkins

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Ken Vincent, Arwelfa, Cefn-llwyd ar ddathlu ei ben blwydd ar y 18 o Fai yn 70 oed.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Catherine a Dilyn Thomas, Bronheulog ar farwolaeth modryb — Mrs Nan Williams, gynt o Lanilar;

hefyd Iona a Meirion Davies, Llaingwyddil, ar golli modryb Mrs Gwenda Thomas, Pen-y-berth.

### Diolch

Hoffai Miss Alwen Griffiths ddiolch i deulu a llu o ffrindiau ddanfonodd eu dymuniadau gorau i mi mewn llythyrau a chardiau dros y misoedd diwethaf. Hyfryd yn ogystal oedd derbyn galwadau ffôn ac ymweliadau cyson ym Mron-glais a Lluest Fach. Gwerthfawrogaf hefyd y ddarpariaeth a'r gofal ddiail dderbyniais gan feddygon a nyrsus Bron-glais a Meddygfa'r Llan. Diolch yn fawr i chi oll.

camau bach
8.00am – 6.00pm Llun-Gwener
Camau Bach yw'r unig feithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth.
Rydym yn cynnig gofal dydd ac addysg o ansawdd i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol.
Mae'r clwb cyn ac ar ôl ysgol bywiog a leolir yn y feithrinfa yn cludo'r plant i ac o'r ysgolion lleol yn Aberystwyth. Mae Clwb Gwyliau rhagorol ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd. Felly, gall Camau Bach gynnig gofal dydd llawn neu ran-amser i holl blant y teulu.
Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd eich plentyn yn cael y gofal gorau gan y tîm o staff profiadol a chymwys, a hynny mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig.
MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
www.mym.co.uk ☎ 01970 639655

Cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

ytincer@googlemail.com

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

# TREFEURIG



## Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig

Mae Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig yn falch o gyhoeddi eu bod wedi gallu cynnig sesiynau blasu Technoleg Gwybodaeth AM DDIM fel rhan o Wythnos Addysg Oedolion (9eg - 16eg Mai 2009), diolch i grant ariannol gan NIACE Dysgu Cymru.

Dilynir y sesiynau blasu gan chwe dosbarth TG wythnosol yn dechrau ar Ddydd Iau 21ain Mai.

Sesiwn 1. — Dechreuwyr
Sesiwn 2. — Ebost
Sesiwn 3. — Sut i gael mwy o ffrindiau heb adael eich cadair freichiau
(Facebook a Rhwydweithiau Cymdeithasol)
Sesiwn 4. - Ffotograffiaeth Ddigidol
Sesiwn 5. — Siopa ar-lein/Ebay
Sesiwn 6. — Hel Achau

Bydd y cwrs cyfan (chwe sesiwn) yn costio £15.00 yn daladwy ymlaen llaw neu fel arall £5 y sesiwn. Bydd angen archebu'r holl gyrsiau neu sesiynau ymlaen llaw.

Dewch i ymuno â ni yn yr Ystafell TG ar ei newydd wedd yng Nghanolfan Gymunedol Hen Ysgol Trefeurig, Pen-bont Rhydybeddau, Cwmsymlog, Aberystwyth, SY23 3EZ
Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Jane Guest, Cadeirydd Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig. Ffôn: 01970 820125

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Llinos a John Evans, Waun-fawr — gynt o Drefeurig — ar farwolaeth chwaer Llinos yn Bow Street.

## Cyfarchion Pen-blwydd

Cyfarchion Pen-blwydd i Dilwyn Davies, Llwynderw, wrth gyrraedd oedran arbennig ar y 9fed Mai oddi wrth ei ffrindiau oll yn ardal Trefeurig.

## Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Edwina Davies, Darren Villa, ar gyrraedd oed yr addewid ar 15fed Mai oddi wrth y teulu i gyd.
Cwmerfyn

'Rydym ni i gyd fel aelodau Capel Siloa, Cwmerfyn yn dymuno pen-blwydd hapus iawn i Mrs Hilda Mason, New Inn, a fydd yn cyrraedd oedran arbennig ar Mai 18. Mae Hilda wedi cael ei magu yn Siloa ac yn aelod yno erioed. 'Roedd hi a'i diweddar briod Elwyn, yn arfer gofalu ar ôl y capel a gwneud gwahanol ddyletswyddau rhyngddynt. Mae ein diolch yn fawr iddi am ei gwaith diflino ar hyd y blynyddoedd. Anfonwn ein cofion cynhesaf i Ifor ei brawd sydd yn Hafod y Waun, yntau hefyd wedi bod yn aelod yn Siloa erioed a 'rydym yn gweld ei eisiau yn fawr.

## Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd Hapus i Hilda Mason, New Inn, ar ei phen-blwydd arbennig ar yr 18fed Mai oddi wrth holl drigolion Trefeurig.



## Elin Jones yn ymweld â Threfeurig

Yn dilyn gwahoddiad gan Gyngor Cymuned Trefeurig fe ymwelodd y Gweinidog Materion Gwledig a'r AC lleol, Elin Jones, ag ardal Pen-bont Rhydybeddau yn ddiweddar. Mae'r Cyngor yn bryderus iawn am gyflwr y ffordd yn yr ardal, yn enwedig rhwng Hen Ysgol Trefeurig a Phendorlan. Ar ochr yr afon i'r ffordd mae'r tir yn colli'n ddifrifol, ac mewn mannau does dim digon o dir i gynnal ffens ysgafn hyd yn oed. Mae hyn yn beryglus iawn i yrwyr, ac yn achos gofid i'r trigolion lleol. Mae cryn ddefnydd o'r ffordd gan gerbydau, gan gynnwys bysus ysgol. Addawodd y Gweinidog gysylltu â Chyngor Ceredigion yn syth i weld beth ellid ei wneud. Y cam cyntaf fyddai gosod rhybuddion clir i dynnu sylw gyrwyr at y peryglon. Yn y llun gwelir Elin Jones yng nghwmni aelodau o'r Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Sir a thrigolion lleol.

# BOW STREET

**Suliau Mehefin**
**Y Garn** http//www.capelygarn.org/
10 a 5
7 Aled Lewis Evans
14 H Roderick Steffan Jones
21 Bugail
28 J.R. Jenkins J. Tudno Williams

**Noddfa**
7 Oedfa am 2.00 Uno yn y Garn am 10.00
14 Oedfa am 5.00 Y Parchg Ddr Terry Edwards
21 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn y Borth am 10.00 Gweinidog
28 Oedfa am 10.00 Y Parchg J.E. Wynne Davies Cymundeb

## Diolch

Dymuna Alun a Louisa Phillips, Maes Ceiro, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt wedi colli Doris, chware Louisa, yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn, blodau ac ymweliadau ac hefyd am y cyfraniadau ariannol. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Richard a Mrs Mair Lewis am eu cefnogaeth. Bu hyn yn gysur mawr i ni fel teulu.

## Llwyddiannau a phen blwydd

Dymuniadau gorau i Rhodri Evans, 95 Bryncastell ar ddathlu ei ben blwydd yn 21 oed ar 26 Ebrill, a llongyfarchiadau mawr iddo hefyd ar ei lwyddiannau niferus yn Eisteddfod Penrhyn-coch.

## Ennill Bafta

Llongyfarchiadau i Garmon Rhys, Caerdydd (gynt Gwyddfor, Bow Street) — ar ennill gwobr Bafta Cymru 2009 am y Rhaglen newyddion a materion cyfoes orau — "America 08: Dewi Llwyd ar daith."

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas brynhawn Mercher 1 Ebrill. Llywyddwyd gan Shan Hayward a chymerwyd at y defosiwn gan y Parchg. Judith Morris. Croesawodd y llywydd Gwenda Edwards a Nest Davies yn ôl wedi cyfnod o salwch, a dymunodd adferiad buan i Gaenor Hall a Vera Lloyd. Llongyfarchwyd Shan ar ddod yn fam-gu i Lywelyn.

Y wraig wadd oedd Dona Edwards a soniodd am ei gwaith gyda' Ffagl Gobaith 'sy'n elusen i roi cymorth yn eu cartrefi i gleifion sy'n derfynol wael yng Ngheredigion. Trefnir y gwaith o swyddfeydd Aberystwyth ac Aberteifi. Mae nyrsus a gweithwyr gwirfoddol yn cynnig gofal arbennig ac yn cynnig gwasanaeth gwarchod. Bu gan yr elusen siop yn Aberystwyth am dair wythnos yn Ebrill a gobeithio fod llawer wedi'i chefnogi. Mwynhawyd te ar y diwedd wedi'i baratoi gan chwiorydd Blaen-ddôl a'r cyffiniau.

## Elizabeth Marion Phillips (1919-2009)

Ar ôl dioddef blynyddoedd o salwch blin

a derbyn gofal ardderchog yng nghartrefi Bodlondeb a Phlas Cwmcynfelyn, hunodd y wreigdda hoff ar 5 Ebrill yn 89 oed. Cyn mynd i'r cartrefi bu Charles ei phriod yn fawr ei ofal ohoni, diolchwn am bartneriaeth hyfryd 66 o flynyddoedd, a chydymdeimlwn ag ef a'i blant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.. Maged Marion ym Mhorthmadog ac yn 16 oed roedd yn organydd yn y capel Wesle yno gan gyflawni'r un gwaith yn Llwyngwril wedi iddi symud yno i ofalu am ei theulu. Bu am gyfnod hefyd yn canu'r organ yn y Babell, Dôl-y-bont.

Ar wahân i'w dawn gerddorol yr oedd yn yn hoff o wnio, gweu a chynhyrchu pethau cain ac oni bai am ei hymrwymiad i'w theulu yn Llwyngwril byddai wedi hoffi bod yn athrawes. Cyfarfu Charles â hi pan ddaeth o ardal Machynlleth i lafurio ar ffermydd y fro, ac ar 10 Medi 1943, priodwyd y ddau yng nghapel Wesle, Tywyn. Cartrefwyd am ugain mlynedd yng Nglanaber a maes o law daeth Glyn, Merfyn ac Annwen i lenwi a llonni'r aelwyd, cyn i'r teulu ddod i ofalu am fferm Elgar i Emlyn Evans o'r Foel, ac ymaelodi yn y Garn. Symud i ffermio ym Mrynglas, Llangeitho am gyfnod cyn dychwelyd i Fwthyn Brongenau , Charles yn gofalu am groesfan y trên a Marion ag yntau yn gofalu am Roberts y cyfreithiwr a'i wraig. Byw wedyn am gyfnod byr yn Nhal-y-bont cyn dychwelyd i stad Maeshenllan, Llandre ac addoli yn y Babell nes gorfod symud i'r fflat yng Nghae'r Felin, Bow-Street oherwydd cyflwr iechyd Marion.

Wrth feddwl am ddwylo medrus Marion yn canu'r organ i berffeithio moliant y saint, y pwytho a'i chynnyrch crefftus a hardd, mae'n briodol dyfynnu geiriau'r llenor J.M.Barrie am ei fam: '*When you looked into my mother's eyes, you knew as if he had told you why God sent her into the world — it was to open the minds of all who looked to beautiful things*'. Mae'n deyrnged yr un mor briodol i Marion.

Fe ddaeth Charles a'i deulu a chyfeillion ynghyd i Amlosgfa Aberystwyth brynhawn Llun 20 Ebrill i ddiolch i'r Arglwydd am fywyd a llafur Marion. Fe'm cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. Hywel Jones a Llunos Gordon, merch cyfnither i Charles. Mae Charles a'i blant am ddiolch i bawb fu'n ofalus o Marion ac yn gwerthfawrogi'r rhoddion er cof amdani a rennir rhwng Plas Cwmcynfelyn a Changen Aberystwyth o Gymdeithas Alzheimer.

**W.J.Edwards**

## Merched y Wawr Rhydypennau

Yn ein cyfarfod mis Ebrill cafwyd cwmni Mr Gerald Morgan i siarad am "Cwrdd â'r Indiaid Cochion", roedd hwn yn uchelgais ganddo ers yn ifanc iawn a phan ddaeth amser hamdden i'w ran fe gyflawnodd y freuddwyd, cafwyd lluniau, storiau a ffeithiau diddorol iawn, ac yn ôl yr ymateb roedd pawb wrth eu bodd.

### ARHOSWCH!......yn enw Duw

Cyfle i unrhyw un ddod i dreulio ychydig funudau tawel o fyfyrdod a gweddi
Capel Y Garn Bore Sadwrn y Pentecost, 30 Mai 2009 10 – 12 o'r gloch

Diolchwyd i Mr Morgan gan Lisa Davies, ein Llywydd. Trafodwyd y busnes ddaeth i law, yna cafwyd ein paned arferol.

## Colli pwysau at achos da

Mae criw o Ferched y Wawr Rhydypennau a ffrindiau wedi bod yn "colli pwysau noddedig" i godi arian tuag at "Apêl Nyrs y Galon Ceredigion", dros dymor y Grawys. Trefnwyd yr ymgyrch gan Janice Petche a Brenda Jones. Mae'r ddwy yn wir ddiolchgar am yr ymateb oddi wrth y merched, a'r gwyr a frwydrodd i golli pwysau. Hefyd i'r noddwyr haul am eu cefnogaeth. Ar ddiwedd y dydd llwyddwyd i godi £1,235.00 (a colli naw stôn). Da iawn chi i gyd. Maent i gyd yn deimlo'n iachach!!

## Cydymdeimlo

Mae'n meddyliau efo Mr Tom Jones, Bryncastell a'r merched o golli priod a mam annwyl, sef Mrs Dilys Jones, wedi afiechyd blin.

Yr un yw ein meddyliau efo Mrs Gardener, Tregerddan a'r teulu ar farwolaeth Mr Roy Gardener yng Nghartref nyrsio Abermâd.

Hefyd daeth profedigaeth i ran Mr Charles Phillips, Cae'r Felin, ar farwolaeth ei wraig yng Nghartref Cwmcynfelyn. Cofiwn ato.

Meddyliwn hefyd am Mrs Beti Davies sydd yng Nghartref Hafan y Waun ar farwolaeth ei phriod Mr John George Davies, Cae'r Felin. Cydymdeimlwn â Mrs Flemming, Tregerddan a Mr a Mrs Iwan Davies, Cnwc y Deintur, Maes-y-garn.

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Ray Evans, 39 Maes Ceiro; Sian, Alun, William a Gerwyn yng Nghaergywydd; Ann ac Ian yn Llanrhystud a`r cysylltiadau oll yn y brofedigaeth lem o golli John ar y 6ed o Fai.

Estynnwn ein cydymdeimlad a David Evans, 2 Tregerddan, ar golli ei chwaer, Dilys Jones, 99 Bryncastell, yn ystod mis Ebrill.

## Ymweliad â'r Andes

Bu Mercedes a Roger Mills, Maes Afallen, allan gyda dirprwyaeth o Aberystwyth oedd yn cynnwys y Maer, Sue Jones Davies, i Esquel yn Chubut, Ariannin yn ddiweddar Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gydol yr wythnos yn y Plaza ac hefyd yn y Ganolfan Gymraeg - pwyllgorau, cyfarfodydd cyhoeddus, swpera a dadorchuddio. Mae Mercedes Mills yn frodor o'r Ariannin a hi yw ysgrifennydd y Pwyllgor Gefeillio. Cyfarfu Roger Mills a chyn-fyfyrwraig o'r Brifysgol — Ivonne Owen, y Gaiman — fu yn Aberystwyth am rai blynyddoedd yn y coleg a chyfnod yn gweithio yn Siop y Pethe.

## John George Davies

Gyda thristwch mawr y clywodd y rhai oedd yn ei adnabod am farw Mr John George Davies, Browenddydd, Cae`r Felin, Bow Street, yn dawel yn Ysbyty Bron-glais fore dydd Gwener, 24 Ebrill, yn 78 mlwydd oed. Un o frodorion y pentref oedd John Davies; Bow Street oedd ei filltir sgwâr, ac fe fyddai bob amser yn ynhyfrydu wrth fynd dros ei atgofion a thros hanesion rhai o gymeriadau diddorol a lliwgar y pentref yn y dyddiau a fu.

Yr oedd dechrau`r daith yn hanes John yn mynd yn ôl i fis Tachwedd 1930 ac i ardal Blaen-ddôl ar Ffordd Clarach, dafliad carreg yn unig o Gapel Noddfa lle bu`n aelod ar hyd ei oes. Symud wedyn i`r tŷ ar gornel y Lôn Groes, i`r Bwthyn, i Dregerddan lle cafwyd y Browenddydd cyntaf, ac yna i ddau leoliad yng Nghae`r Felin yn cynnwys Rhif 4 wedi priodi Beti yn 1990. Unig fab y diweddar Benjamin a Margaret Ann Davies oedd John, ei fam yn hanu o Sir Benfro a`i dad yn un o blant Bow Street, hen deulu da Glanrafon sydd wedi gwasanaethu`r ardal, a Chapel Noddfa yn arbennig, mor anrhydeddus ar hyd y blynyddoedd. Wedi derbyn ei addysg yn lleol cafodd John waith gyda Geiriadur Prifysgol Cymru yn Aberystwyth a gwelir ei enw hyd heddiw ar flaen rhai o rannau cyhoeddiedig cynnar y Geiriadur fel yr un fu wrthi yn teipio i`r Geiriadur yn y cyfnod hwnnw, sef cyfnod y diweddar R J Thomas. Symud ymlaen wedyn i fod ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac yno y bu wedyn hyd ei ymddeoliad ar ddiwedd yr 80au.

Mae`n deg nodi na fu iechyd John yn gryf erioed ac iddo gael ei flino gan gloffni ar hyd y blynyddoedd, ac o`r herwydd wedi gorfod treulio cryn gyfnodau yn y ysbyty ar dro. Serch hynny brwydrodd yn ddewr yn erbyn y rhwystrau hyn ac y mae pob clod yn ddyledus iddo am hynny. Fel y dywedodd y Parchedig W J Edwards dim ond cloff yn gorfforol oedd John. Wrth dalu teyrnged iddo ar ddydd ei angladd yng Nghapel Noddfa ddydd Gwener 1 Mai, tynnodd ei Weinidog, Y Parchedig Richard Lewis, yn helaeth ar ei adnabyddiaeth bersonnol o John fel cyfaill a chydweithiwr dros gyfnod o 36 o flynyddoedd er mwyn ceisio crynhoi rhawd ei fywyd dan dri phen, sef caredigrwydd, ffyddlondeb a chymeriad gan nodi fod y tair elfen yn plethu i`w gilydd yn un rhwymun hardd.

Gŵr ei filltir sgŵar oedd John Davies heb os nac oni bai, un o gymeriadau diddorol pentref Bow Street, ac un a fu mor ffyddlon a hael tuag at ei deulu a`i ffrindiau ac i`w gapel lle bu`n Gyhoeddwr, Diacon ac Ymddiriedolwr ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd lawer. Bydd yn dlotach arnom hebddo mewn sawl cyfeiriad. Wrth gofio`n annwyl amdano yr ydym hefyd yn cofio am Beti, Sian a David, Huw ac Eiry, Gareth, Lona a Gruffudd, Anti Eunice a`r cysylltiadau i gyd yn ardal Y Tincer ac yn Sir Benfro ac yn cydymdeimlo`n ddiffuant â hwy yn eu profedigaeth.



John G. Davies (sy'n eistedd yn y llun) yn actio yn yr Insbector gan Nikolai Gogol a berfformiwyd yn Neuadd Rhydypennau, Theatr y Werin a Theatr Felin-fach ar ddiwedd y chwedegau. Y ddau arall yn y llun yw Gwydol Owen a Gareth Wiliam Jones.

templatelliw.indd 7 19/5/09 10:28:33

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Mynd i Forio

Llongyfarchiadau calonog i Patrick Clissold, Alaw'r Nant, Capel Bangor, sydd newydd wireddu breuddwyd. Bod yn llongwr oedd uchelgais Patrick er pan yn fachgen bach. Ei bennaf diddordeb drwy gydol ei lencyndod oedd canwio neu gaiaco ac mae'r gweithgaredd hwnnw wedi ei arwain i bedwar ban byd. Yn ogystal â phadlo ei ffordd ar hyd afonydd Cymru, mae Patrick wedi cael profiad o deithio ar hyd rhai o afonydd gwyllaf a pheryclaf y byd yn Ewrop, America, Nepal, Mongolia a Siberia ymhlith amryfal fannau eraill. Ar hyn o bryd mae'n cydweithio gydag eraill i gynhyrchu arweinlyfr i afonydd Cymru ar gyfer canwyr a chaiacwyr eraill.

Y llynedd enillodd Patrick sy'n un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Pen-llwyn ac Ysgol Uwchradd Pen-glais, Aberystwyth radd MEng yng Ngholeg Ymerodrol Llundain ac eleni fe'i comisiynwyd yn Is-lefftenant yn y Llynges Frenhinol. Cynhaliwyd y seremoni yng Nholeg Britannia'r Llynges Frenhinol yn Dartmouth ar y 9fed o Ebrill. Ar ôl ychydig wythnosau o seibiant bydd Patrick yn cychwyn ar ei ddyletswyddau fel swyddog ar un o longau'r Llynges ac yn treulio cyfnod o bedwar mis ar y môr cyn cychwyn ar gyfnod pellach o chwe mis o astudiaeth a hyfforddiant mewn peirianneg. Yn dilyn hynny bydd yn cychwyn o ddifrif ar ei yrfa a hynny mewn llestr tra gwahanol i unrhyw ganŵ na chaiac — ei ddewis yw hwylio dyfnderoedd y môr mewn llongau tanfor. Dymunir iddo yrfa faith a llewyrchus.

**Mrs Gwyneth Powell Harris, 5 Cefnmelindwr**

Hunodd Mrs Gwyneth Harris yn dawel yng Nghartref Abermâd ar y 17eg o Ebrill yn 88 mlwydd oed.

Bu yn byw am dros yr ugain mlynedd ddiwethaf o'i hoes yng Nghefnmelindwr, Capel Bangor, cyn gorfod mynd i Gartref Nyrsio oherwydd dirywiad yn ei hiechyd. Roedd ei chyfnither, Eirlys Davies, Caehaidd, Cwmrheidol a'r teulu, yn agos iawn ati, a chafodd pob cymorth a sylw tra 'roedd yn ei chartref ei hun.

Hanai ei mam a'i thad o Ogledd Ceredigion, ond symud i Ynys-hir yn y Rhondda a wnaethant, pan oedd y gweithfeydd plwm ar eu lawr, ac ymsefydlu yno. Yna yn ystod streic 1926 symud i Lundain, a'i thad yn ymuno â'r manwerthwyr llaeth.

Wedi gadael yr ysgol ymunodd Gwyneth â'r Llaethdai Unedig a daliodd swydd bwysig o reolwraig yn ei hadran.

Un o'i rhinweddau oedd consyrn am eraill. Pan ymunodd bachgen ieuanc 14 mlwydd oed fel negeseuwr yr adran, bu yn or garedig wrtho. Parhaodd y cyfeillgarwch hwn, er iddo symud i Ganada. Cofiwn iddo alw ar Mrs Harris yn ei chartref, rhai blynyddoedd yn ôl, a bu adroddiad o'i ymweliad yn y Tincer.

Priododd Gwyneth ag Edward Harris, a bu yn byw yn Worthing. Wedi colli ei phriod dewisodd ymhen amser i ddod yn ol i Geredigion ble roedd ei gwreiddiau, ac ymsefydlodd yng Nghapel Bangor, er mwyn bod yn agos iw chyfnither.

Bu yn aelod brwd o Sefydliad y Merched, yn weithgar ar bwyllgor Neuadd y Pentref a chlwb Sion a Sian.

Carai ymweld â Chwmrheidol ymhlith cyfeillion eraill, a byddai yn mynd yn ddiffael i'r dre' i gael gwneud ei gwallt bob Ddydd Mawrth. Roedd yn ddynes smart, o gymeriad cryf, yn fywiog ac yn llawn iawn.

Safai lan dros ei hun, pan âi pobl eraill efo'r llif. Nid ofnai cael dadl, ac ni roddai i mewn yn aml, yn ôl y Parchg Elwyn Pryse a arferai sgwrsio â hi yn Caehaidd.

Er ei bod yn berson annibynol, ymsefydlodd yn dda yng Nghartref Abermâd, a teg yw dweud y mwynhaodd ei hamser yno. Erys yn hir yr atgofion am Mrs Gwyneth Harris, a da oedd ei hadnabod.

Cynhaliwyd ei hangladd Ddydd Iau Ebrill 23ain yn Amlosgfa Aberystwyth, pryd y daeth tyrfa dda i dalu y gymwynas olaf iddi. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Parchedig Elwyn Pryse, yn cael ei gynorthwyo gan Parchedig Ifan Mason Davies. Un o'r emynau a ganwyd oedd "Guide me O! Thy Great Jehova" ar y dôn Cwm Rhondda, gan ei bod wedi treulio gryn amser o'i hoes yn y Rhondda. Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Eirlys Davies a'r teulu, ei chyfeillion a'r cysylltiadau eraill i gyd.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mr a Mrs Geraint a Mari Williams, Nant fach, Cefnllidiart. Mari wedi colli ei thad yn sydyn ar Ebrill 15ed, sef Mr David Owen Jones, Llyn Blaen-y-coed, Caerfyrddin.

## Ysbyty

Mae nifer o bobl yr ardal wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, a dymunwn iddynt i gyd wellhad llwyr a buan, sef Mrs Sally Evans Tywynfa, Mrs Myfanwy Thomas Troedrhiwlwba, a Mrs Caroline Bentham Cefnmelindwr.

## Damwain

Bu Hannah Jones, Tan-y-gaer, mewn damwain car yn ddiweddar yn Lerpwl, ble mae Hannah yn gweithio ar hyn o bryd. Fe fu yn anlwcus i gar yrru yn syth i mewn iddi. Cafodd ei throsglwyddo, yn ôl ei dymuniad, i ysbyty Bron-glais, a deallwn ei bod adre yn Nhan-y-gaer wrth fynd i'r wasg. Gobeithiwn ei bod yn well o'i hanafiadau, a dymunwn iddi adferiad buan, ac anfonwn ein cofion cynnes.

## Wedi'r driniaeth

Hyfryd oedd gweld Miss Gwen Davies, Panteg, yn ôl yn oedfa'r bore, wedi'r driniaeth ar ei llygad.

## Croeso

Croeso yn ôl i'r pentref i Daniel Young, sydd wedi dod i fyw i Gwarcwm.

## Genedigaethau

Croeso i fab bach cyntaf-anedig Melanie a Daniel Hughes, Exchange, - Charlie Daniel Hughes a anwyd ar y 12fed o Ebrill.

Hefyd ganwyd Efanna, ail ferch fach Aled a Nia Lewis, Ystrad, ar y 25ain Ebrill, chwaer fach i Megan.

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau deulu bach.

## Diolch

Dymuna Mrs Enid Vaughan, Maesawel, ddiolch o galon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt fel teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Diolch am y rhoddion hael i Nyrsus y Gymuned Meddygfa'r Llan, er cof am Glyn Vaughan. Hefyd am wasanaeth y gweinidogion yn y capel, a phob caredigrwydd a chymorth ar ddiwrnod yr angladd. Llawer o ddiolch i bawb.

## Merched y Wawr Cangen Melindwr

Cyfarfu'r aelodau ar Nos Fawrth 7ed Ebrill. Trafodwyd materion ynglŷn â'r gangen a derbyniwyd cyfraniadau tuag at Ofal Cancr y Fron, yn ystod y rhan gyntaf.

Yna croesawyd a chyflwynwyd ein siaradwr, sef Charles Arch, gan Mary Jones ein llywydd. Clywsom ganddo sut y symudodd ei deulu o Loegr, gan ymsefydlu yng Ngheredigion. Cafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni, pryd y rhoddodd i ni ddarlun o'r bywyd a fu, yng nghefn gwlad.

Rhannodd hanesion am gymeriadau cefn gwlad ac am draddodiadau. Soniodd am eirfa na ddefnyddir yn naturiol bellach. Clywsom hanesion am ei fro yn ystod eira mawr 1947, am ddyfodiad y tractor i'w ardal, am ffeiriau, sipsiwn, a thramps. Yn wir roedd ganddo stôr o wybodaeth, ac fe'i rhannwyd â ni mewn dull hamddenol a chartrefol.

Diolchwyd iddo am y noson ddiddorol gan Delyth Davies. Beti Daniel a Margaret Stevens oedd yn gyfrifol am y te, a'r wobr wobr raffl. Fe'i henillwyd gan Ann James.

## Cylch Meithrin Pen-llwyn, Ponterwyd a Mynach

Cynhaliwyd Helfa Wyau llwyddiannus gan Gylch Meithrin yr ardal ar y 29ain o Fawrth. Cafodd cefnogwyr y Cylch, rhieni, ffrindiau,

a'r plant, lawer o hwyl yn dod o hyd i'r wyau, a datrys y pôs yn nhir coediog Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd. Darparwyd diod a byrbrydau yn yr ysgol, a bu'r plant yn mwynhau gwneud crefft a chael paentio wynebau, wedi ei drefnu gan deuluoedd blant y Cylch, a'u cynorthwywyr brwdfrydig.

Gwnaethpwyd £450 o elw tuag at y Cylch Meithrin. Diolch yn fawr i bawb, yn enwedig noddwyr y raffl am eu cefnogaeth.

Am unrhyw wybodaeth am y Cylch Meithrin, a gynhelir bedwar bore yr wythnos i blant 2-4 oed, yn neuadd bentref Pen-llwyn Capel Bangor; cysylltwch â Gail Nolan Arweinyddes (ffôn 07708 249 794) neu Bethan James, Cadeiryddes y pwyllgor (ffôn 01970 890 283)

## Y nifer mwyaf erioed yn ymweld â Bwlch Nant yr Arian

Daeth y nifer mwyaf erioed o ymwelwyr i Ganolfan Ymwelwyr Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mwlch Nant yr Arian ger Goginan dros benwythnos y Pasg. Cynhaliodd y Ceidwaid Helfa Wyau Pasg arbennig o lwyddiannus o gylch y llyn, ac roedd y llwybrau beicio mynydd a'r llwybrau cerdded mor brysur ag erioed a'r maes parcio'n orlawn dros bedwar diwrnod yr ŵyl.

"Roedd digon i bawb ei wneud dros y penwythnos, ac nid ydym erioed wedi bod mor brysur," meddai Tom Roberts, sy'n gynorthwy-ydd yn y Ganolfan Ymwelwyr. "Roedd yn amlwg bod y tywydd braf wedi denu pobl i Fwlch Nant yr Arian yn ystod gwyliau banc y Pasg. Bu dros 200 yn cymryd rhan yn yr helfa wyau Pasg ac roedd y ciw ar gyfer y caffi yn cyrraedd at y drws cefn, a'r staff yn andros o brysur!"



Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

## GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Dai a Carol Jones, Is y Coed, a'r teulu ar farwolaeth chwaer Dai - Gwenda Thomas - ym Mhenrhyn-coch,

### Gwellhad Buan

Hoffwn ddymuno yn dda i Les, Loveden House, sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar a hefyd mae yna lawdriniaeth i ddod. Pob lwc iddo a dymuniadau am lwyr wellhad yn fuan.

### Druid

Fe fu dathlu mawr yn y Druid ar Ddydd Sadwrn Ebrill 25 pan eleni eto cafodd y Druid ei henwi fel y dafarn orau yng Ngheredigion am werthu cwrw casgen. Fe ddaeth aelodau o'r gymdeithas Cwrw Casgen ynghyd gyda'r bobl leol i weld Rhys Jones, y cadeirydd, yn cyflwyno'r dystysgrif i Lewis a Carlie.



Llun: Arvid Parry Jones

## CYSYLLTWCH Â NI

ytincer@googlemail.com



# PENRHYN-COCH

## Suliau Mehefin Horeb

7 2.30 Oedfa gymun
14 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
21 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog — Delyth Davies
28 10.45 Wynford Elis Owen yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch
30 Oedfa bregethu Gweinidog

## Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 10 a 24 Mehefin. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Ymddeoliad hapus

Ymddeoliad hapus a phob dymuniad da i Dafydd Ifans, Rhandir, ar ei ymddeoliad o'i swydd fel Pennaeth Isadran Derbyn ar 30 Ebrill wedi yn agos i 37 mlynedd o wasanaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol.

## Gwneud yn Athro

Llongyfarchiadau i Jeremy Davies, Glan Ceulan, ar gael ei wneud yn Athro anrhydeddus yn adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth. Jeremy yw Prif Ddaearegwr Cymru a phennaeth swyddfa'r Arolwg Daearegol Prydain yng Nghymru, wedi ei lleoli yng Nghaerdydd (lle mae'n cymudo'n wythnosol). Mae e'n mwynhau cysylltiad agos gyda Phrifysgol Aberystwyth, wedi darlithio yno'n achlysurol a chydweithio gyda myfyrwyr a darlithwyr ar brosiectau daearegol. Am gyfnod hir roedd swyddfa Cymreig ADP hefyd wedi ei lleoli yn y Brifysgol.



Yr Athro Jeremy Davies

## Marwolaeth

Ar Ebrill 12fed yn Nhonypandy bu farw William (Bill) Morgan Thomas o Berw Road, Tonypandy. Cydymdeimlwn â'i weddw Nancy a'i fab Gareth. Yn dilyn gwasanaeth yn Amlosfa Glyntaf cleddir ei lwch ym mynwent Horeb. 'Roedd Bill yn gefnder i fechgyn Beech House — ei fam yn chwaer i'w tad.

## Eglwys Sant Ioan

Dydd Sul y blodau trefnwyd i gael stondin yn yr Eglwys yn gysylltiedig â'r Pasg, i godi arian tuag at system wresogi newydd. Cafwyd ymateb da ac mae'r dasg o godi arian tuag at yr achos ar ei ffordd. Yn ystod gwasanaeth y cymun ar ddydd Iau cablyd, bu'r ddefod o olchi traed rhai o'r gynulleidfa gan y Ficer, fel arwydd o ostyngeiddrwydd, yna ar ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd gwasanaeth y Litwrgi rhwng 2 - 3 o'r gloch. Bore Sadwrn y Pasg yn neuadd yr Eglwys, cynhaliwyd gweithdy ar gyfer y plant a bu'n creu eitemau yn gysylltiedig a'r ŵyl. Cafwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y bore, a diolch i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu'r gweithdy. Ar wylnos y Pasg goleuwyd y gannwyll Basg, ac yna cynnwyd canhwyllau'r gynulleidfa o'r un gannwyll, gan ddilyn 'roedd Litwrgi'r Gair ac adnewyddu'r addunedau bedydd. 'Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n hardd iawn ar gyfer y dathlu, gyda chynulleidfa dda yn bresennol.

## Cymanfa Ganu

Cafwyd Cymanfa Ganu lewyrchus yn Sant Ioan ar nos Sul y 3ydd o Fai, yng nghwmni Côr Cantre'r Gwaelod, ynghyd â'i harweinydd Mrs Eleri Roberts, hi hefyd fu'n arwain y canu cynulleidfaol. Mrs Eirwen Hughes oedd yn cyfeilio ar yr organ a'r Unawdydd gwadd oedd Mrs Jen Roberts o Bow Street. Cafwyd araith gan Lywydd y noson, sef Mr Dai Suter, ein cynghorydd lleol, a braf oedd cael gweld Mark Williams, Aelod Seneddol dros Geredigion a'i deulu yn ymuno'n frwdfrydig yn y canu yn y gynulleidfa. Gwahoddwyd pawb i ymuno yn y swper a gynhaliwyd yn y neuadd wedi'r canu, a diolchwyd i bawb am noson hyfryd gan y Parchedig John Livingstone.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Daeth blwyddyn arall bron i ben yn hanes Urdd y Gwragedd gyda chyfarfod blynyddol a lluniaeth ysgafn. Edrychwn ymlaen yn awr am ein trip ym mis Mehefin.

Trist yw cofnodi marwolaeth dwy o'n haelodau mewn byr amser i'w gilydd, sef Mrs Nan Balfour, a Mrs Gwenda Thomas ein trysorydd. Bu'r ddwy yn aelodau gweithgar a ffyddlon dros yr Eglwys ac mi fydd colled mawr ar eu hôl.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Ellen Davies, Meurig Cottage, merch Mair a'r diweddar Henry Davies, Meurig Cottage ar ei dyweddiad yn ddiweddar â Iwan Hywel, mab Bethan a Hywel Williams, Llangernyw.

## Marwolaeth

Claddwyd Mr Thomas Hulme, Gwêl y Môr, Pantglas, Llanilar ar ddydd Llun 6ed Ebrill. Gweinyddwyd gan y Parchedig J. Livingstone a chyfeiliwyd gan Mrs Eirwen Hughes.

Bu gwasanaeth cyhoeddus dydd Gwener Ebrill 17eg i gofio yn dyner am Mrs Hannah M. Balfour, Brynheulog, Penrhyn-coch. Bu Nan yn Warden y Ficer ac yn athrawes Ysgol Sul am Flynyddoedd yn Eglwys Sant Ioan, bu'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Neil Fairlamb, yn absenoldeb y Parchedig John Livingstone. Cyfeiliwyd ar yr organ gan Mrs Marianne Powell.



Y plant wedi gwisgo mewn coch ar ddiwrnod trwynau coch



Y rhai a gymerodd ran mewn reidio beic noddedig gyda dosbarth derbyn Ysgol Penrhyn-coch. Fe lwyddodd y plant i godi £300 i'r Cylch.



## Taith Gerdded

Ar ddydd Sadwrn y 18fed o Ebrill, trefnwyd taith gerdded gan Mrs Dwynwen Belsey. Taith saith milltir o hyd ym milltir sgwâr yr emynydd Ann Griffiths yn cychwyn o Bontllogel, Llwydiarth ac yn ymweld ag ardal Dolanog a Dolwar Fach, Powys. Codwyd dros £600 ar elw tuag at system wresogi newydd yr Eglwys.

Ar ddydd Iau, Ebrill 30ain, bu angladd Mrs Gwenda A. Thomas, Gwelfor, Penyberth, Penrhyn-coch. 'Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig J. Livingstone, a chyfeiliwyd ar yr organ gan Mrs Rhian Davies.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir a'r Athro Jeremy Davies a'r teulu ar farwolaeth ei fam, Irene Davies, yn Hafan y Waun, gynt o 47 Glan Ceulan.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Elenid Hughes, Rhiannon a Meinir a'r teulu, Bodwyn, Ffordd Caradog, Aberystwyth ar farwolaeth Emrys Hughes ddiwedd Ebrill. Bu'r teulu yn byw yn 3 Maesyfelin, ddiwedd y saithdegau ac roedd Emrys yn canu gyda Parti (plygain) y Penrhyn a Chantre'r Gwaelod ac yn derbyn *y Tincer* yn rheolaidd.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym wedi dychwelyd i'r neuadd ac yn setlo. Diolch i Mr Evans, y staff a'r plant am y croeso tra roeddwn yn Ysgol Penrhyn-coch. Croeso cynnes i Daniel Brown, Cai, Steffan, Daniel a Gwion sydd wedi ymuno â ni. Steffan James yw y 550fed plentyn i ymuno â'r Cylch.

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Connie Evans a Cerys Humphreys a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

## Croeso a diolch

Croeso cynnes i Lawrence Kelly sydd wedi cymryd trosodd ein Swyddfa Bost ym Mhenrhyn-coch a dymuniadau gorau iddo yn y fenter hon. Dymuniadau gorau a diolch i Carwyn Jenkins a'r teulu i gyd ar eu hymddeoliad o'r Swyddfa Bost, ac am y croeso a gafwyd ganddynt bob amser yn y Post a'r Siop.

## Diolch

Dymuna Carwyn a'r teulu, Swyddfa Bost, ddiolch i'w staff a chwsmeriaid am eu cefnogaeth yn ystod y naw mlynedd diwethaf. Dymunant pob llwyddiant i Lawrence Kelly, y perchennog newydd.



## Cydymdeimlad

Ein cydymdeimlad dwysaf â theulu y ddiweddar Nan Balfour, un o blant y pentre a fu yn ffyddlon iawn i'w theulu ac yn byw i'r pethau gorau yn Eglwys Sant Ioan.

Ein cydymdeimlad â theulu y diweddar Gwenda Thomas. Un arall o blant y pentre a fu yn ffyddlon iawn at bob peth yn y pentre ar hyd y blynyddoedd. Roedd hithau hefyd yn meddwl y byd o'i theulu ac yn arbennig yr wyrion a'i hwyres.

## Rhaghysbysiad

Cynhelir Bingo yn Neuadd yr Eglwys ar y trydydd nos Wener y mis sef ar 18fed o Fedi, 16eg o Hydref a'r 18fed o Dachwedd 2009. Croeso i bawb.

## Cymdeithas Ymddeolwyr Penrhyn-coch

Dydd Mercher Mai 6ed, daeth Mr Geoffrey Harrison atom fel rhan o fenter "Ynadon yn y Gymuned". Roedd yn ddiddorol iawn clywed wrtho, gyda dipyn o hiwmor, sut y mae'r bobl sydd â gymaint o gyfrifoldeb yn cael eu dewis, a da oedd deall mor ofalus y maent i wneud eu gorau er mwyn y rhai sydd yn ymddangos yn y llys yn ogystal ag i'r gymdeithas (a hynny yn ddidâl). Roedd e'n barod iawn i ateb cwestiynau'r aelodau hefyd cyn tynnu'r raffl a enillwyd gan Mrs Connie Harris a chael cwpanaid o de a baratowyd gan Mrs Mavis McGauley a Mrs Gay Starling. Diolch iddo gan Dr Clive Williams.

## Sefydliad y Merched Penrhyn-coch

Ar ôl diwrnod cymylog a di-haul, cyrhaeddodd 7.30yh nos Fawrth 6fed o mis Mai yn heulog braf a cymeron ni fantais llawn ohoni wrth gerdded "Y Prom" yn yr awyr iach a'r llanw yn llawn, i gicio'r "bar". Â'r haul yn machlud a'r cymylau yn dod yn ôl fe gerddon ni 'nôl yn wyneb y gwynt a chael siocled poeth, wrth gwneud busnes y noson. Y tro nesaf, ar Fai 20fed, byddwn yn cwrdd yn ein hen gartref, sef Neuadd y Penrhyn i baratoi erbyn Mai 30, ein menter i godi arian ar gyfer yr elusen cancr Tenovus, fydd yn cael ei chynnal yn Neuadd yr ysgol o 2-4yp.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Ar nos Iau Ebrill 9fed cafwyd noson arbennig arall yng nghalendr y gangen. Gwnaed busnes arferol ar gychwyn y noson a thrafod gohebiaeth a ddaeth i law. Yna am wyth o'r gloch fe groesawodd y Llywydd bawb i'r Neuadd. Canghenau MYW Wyre ac Aberystwyth ac aelodau o Gymdeithas y Penrhyn a gafodd wahoddiad i ymuno â ni fel cangen am y noson. Yna aeth Mairwen ymlaen i groesawu ein gwraig wadd sef Bethan Gwanas. Nid oedd eisiau ei chyflwyno am fod pawb bellach yn ei hadnabod. Do! Cafwyd noson fawr yn ei chwmni, wrth iddi ddweud ei holl hanes yn ysgrifennu ei llyfrau ac am ei hamser yn trafaelio dros y byd ac am ei gwaith ar y teledu. Noson yn llawn o hiwmor a phawb yn eistedd a gwrando yn astud a chael hwyl. Gallai y noson wedi cario ymlaen ac ymlaen. Diolchwyd i Bethan yn swyddogol gan Mair Evans ac yna cafwyd gwledd o swper a oedd wedi ei baratoi gan Ferched y Wawr y Penrhyn a thynnwyd y raffl cyn mynd tua thre.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol y Penrhyn dros benwythnos 24/25ain o Ebrill. Yn ôl yr arfer cafwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben. Mae ein diolch yn fawr iawn i bawb yn ddiwahan a gyfrannodd at ei gwneud yn Eisteddfod werth ei chynnal unwaith eto. Dyma'r enillwyr lleol yn unig a diolch iddynt am gystadlu:
Carys James, Stephanie Murry, Isobel Hopkins, Osian Hallgarth, Connor Robinson, Megan Evans, Shane Evans, Cadi Hallgarth, Sion James, Nia Jones, Sian Jenkins, Elan Donnelly, Bela Harris, Phoebe Elvey, Tomos Wilson, Zoe Evans, Sion Wynn, Sioned Exley, Lowri Walten, Carwyn Jones, Seren Jenkins, Mared Pugh Evans, Lisa Evans, Anwen Morris, Amber Evans, Rhys Hedd, Carys Jones, Gwenno Morris, Partïon Unsain Ysgol Penrhyn-coch, Partion Llefaru Ysgol Penrhyn-coch, Rhodri Evans, Bow Street, Elir Pryse, Aberystwyth, Llŷr Eurig, Aberystwyth, Anest Eurig, Aberystwyth, Meleri Pryse, Aberystwyth, Elen Gwenllian, Aberystwyth, Rhian Dobson, Penrhyn-coch, Helen Thomas, Ponterwyd, Alun John, Penrhyn-coch, Bois Ger-y-Lli, Parti Mair Penrhyn-coch (Llefaru), Parti Pantycelyn (Llefaru), Carys Mair Davies, Lluest, Côr Ger-y-Lli, Marianne Jones Powell.
Diolch i'r Beirniad, cyfeilyddion, arweinyddion, merched y gegin, y rhai fu wrth y drws a phawb a gyfrannodd a rhoi gwobrau, ac wrth gwrs y cystadleuwyr. Emyr Pugh Evans am ofalu am seremoni Tlws yr Ifanc a enillwyd gan Eilir Pryze, Aberystwyth ac i Dennis Davies am ofalu at seremoni'r Cadeirio, y Gadair yn rhoddedig gan Aeron a Ceinwen a'i teuluoedd er cof am eu mam Nesta. Enillwyd y gadair gan Osian Rowlands, Llandwrog, Caernarfon. Diolch i'r Llywyddion, Lynwen Jenkins y Cynghorydd, Dai Suter ac Alun John am eu rhan arbennig nhw i'r Eisteddfod. Diolch.



Priodwyd James Evans (Glanaber, Penrhyn-coch) a Lindsay Hosking (Barrow) yn Dorridge ar y 4ydd o Ebrill, Treuliasant eu mis mêl yn Ne Affrica. Y maent wedi ymartrefu yn Dorridge, ger Birmingham. Pob lwc iddynt.





Brownies Penrhyn-coch yn gwerthu cacennau a nwyddau Pasg yn Garej Tŷ Mawr, a'r wythnos canlynol yn mynd nol i ddiolch ar ol codi £285. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd ac yn enwedig i'r Garej am ei caredigrwydd a'i cymorth ar y dydd."

## Cystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod Penrhyn-coch 2009

### 'Taith'

Fel defod daeth ei dyfodiad — gloyw.
Goleua'i bedyddiad
Y llethrau a daeth llithriad
Fel swyn, i ddwyn ei rhyddhad.

Harddwch, tarddu
O'r gro mor gry'.
Ar dan, ar daith,
Gwibio, gobaith.
A'i nerth yn wyn
Ysgafn ddisgyn.

Un llinyn, nid yw'n llonydd
A llenwi y mae'r llynnoedd.
Ei halaw'n swyno'r moelydd,
Un malwr ymysg miloedd.

O'r niwl ymostwng mae'r nant,
Ymdroi, a ffoi'n ddiffuant.
Dros garnedd yn nadreddu,
Heidia'r dÐr i'r dyfnder du.

Yn arllwys yn glwys o'r Creigiau Gleision,
Yn gwaedu dros yr Ysgolion Duon.
Tiroedd y Nefoedd yw Cwm Anafon
A'r gwynt o'r môr yn pwyo'r copaon,
Y moelydd ar eu hymylon — meini
Yn gewri, a'r haen eira yn goron.

O ffiniau Cwm y Ffynnon
O afael gref y Foel Gron.
Yn trafod creigiau Tryfan,
Naddu, lledu tua'r llan.

Mor hardd Clogwyn Du'r Arddu
O dir Pen yr Helgi Du,
A'r lleuad uwchlaw'r Lliwedd,
Yr Elen, mor hen, mewn hedd.
Ei thaith, un maith, ymwthio
O'r brig i ehangder bro.

Drwy'r cerrig daeth ei rhigwm — ei halaw
O'i chalon yn fwrlwm,
Yn rasio heb fod rheswm,
O'r carn ystumiodd i'r cwm.

Anochel, rhaid ffarwelio,
A'i ffawd, yw llithro ar ffo,
Yn llwm, yn araf ei lli
O erwau aur Eryri.

I'w herydu daeth ei phryder — ei phoen
A'i ffydd ddaeth yn ofer,
Rhy hwyr deallodd yr her
A'i haberth aeth i'r aber.

**Llwynog ( Osian Rowlands)**

## BARDD CADEIRIOL YR EISTEDDFOD



Enillydd Cadair Eisteddfod Penrhyn-coch eleni oedd Osian Rowlands, Llandwrog. Yn enedigol o Borthmadog - yn fab i Huw a Heulwen Rowlands, astudiodd Osian fiocemeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor; tra yno cyfarfu a'i wraig, Sioned Hywel o Carreg Cemen. Mae Osian a Sioned yn byw yn Llandwrog ac mae gaddynt dri o blant - Gwion Elidir (7 oed), Meilir Aran (4) a Lleucu Tryfan sydd newydd gael ei blwydd. Mae Osian yn athro ysgol gynradd yn Llangaffo ar Ynys Môn. Bu'n dysgu y grefft o gynganeddu ers rhyw ddwy flynedd o dan arweiniad Ifan Prys sydd hefyd o Landwrog. Dyma'r gadair gyntaf iddo ei hennill ac roedd yn falch iawn o gael llwyddiant ym mro enedigol ei wraig.

Diddorol oedd deall nad oedd Osian wedi gweld copi papur o Restr testunau yr Eisteddfod gan mai ar y we y daeth ar draws y wybodaeth. Gwelodd y copi oedd ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru http://www.steddfota.org/

Mae gan Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch dudalen hefyd ar wefan Trefeurig

A gellir gweld copi o'r rhaglen yno hefyd ynghyd a mwy o luniau o'r Eisteddfod. http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-eisteddfod.php Dyna brawf fod cynulleidfa ehangach yn dod ar draws wybodaeth yn y fath fodd!

"Hoffwn ddiolch yn fawr am y croeso a gefais yn yr Eisteddfod ym Mhenrhyn-coch yn ddiweddar. Hoffwn ddiolch yn arbennig i bwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith ac i wneud fy mhrofiad mor arbennig a bythgofiadwy." Osian Rowlands, Llandwrog.

## TLWS YR IFANC

Enillydd Tlws yr Ifanc, a gafodd ei roi eleni am waith cerddorol — oedd Eilir Pryse. Aberystwyth. Yn ôl y beirniad — Mrs Rhiannon Lewis, Cenarth — ymgeisiodd deg er mai chwe chystadleuydd oedd gan fod rhai wedi gyrru mwy nag un cynnyrch i mewn. Roedd y cyfansoddiadau yn amrywiol -deuawd leisiol, deuawd telyn, gosodiad cerdd dant offerynnol a phedwarawd llinynnol. Gwaith Azariah Shadrach oedd yr un hoffai orau ( er mawr ddifyrrwch i Arweinydd y noson gâi drafferth i ynganu yr enw!!) Roedd dau gyfansoddiad ganddo — Llais Pavarotti a Cawl Consti - pedwarawd llinynnol a'r pedwarawd a enillodd..

Roedd Eilir yn wyneb cyfarwydd i'r gynulleidfa gan ei fod ef a'i chwaer Meleri yn gystadleuwyr llefaru cyson yn Eisteddfod y Penrhyn. Daeth ef a Megan yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008. Mae'n gwneud TGAU eleni ac yn chwarae'r ffidil yng ngherddorfeydd y sir ac yn chwarae offer taro ym Mand Pres Aberystwyth, Band Chwyth Symffonig y Brifysgol, Y Philamusica a Band Pres y Dair Sir. Mae ef a Meleri yn rhan o dîm sy'n bencampwyr Karate Cymru.]

A'r ffugenw? Wel bu'r Parchg Azariah Shadrach — (awdur emynau 171 a 693 yn *Caneuon ffydd*) yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Nhal-y-bont, Ceredigion, Hephzibah, Clarach a Llanbadarn ac ef oedd gweinidog cyntaf Eglwys Seion, Aberystwyth pan oedd ym Mhenmaesglas — cyn iddi symud i'w chartref presennol yn Stryd y Popty). 'Roedd Côr Ceulan yn arfer canu emyn 171 — Os gofyn rhywun beth yw Duw/ atebwn ni mai cariad yw.

Yn ôl Rhiannon Lewis, y beirniad, wrth sôn am "Cawl Consti - cyfres o amrywiaethau ar gyfer Pedwarawd Llinynnol." "Roedd yr alaw wedi cael ei hamrywion'n gelfydd a chyda phob 'ail ddweud' 'roedd alaw Ffidl 1 yn mynd yn fwy dechnegol gymhleth. Da iawn! 'Roedd sylw manwl wedi ei roi i'r arwyddion perfformio. Mae'r darn yn swnio'n glasurol, a braf oedd peidio darganfod gormod o ddilynolion ymhob amrywiad! Cyfansoddiad cryno, ffres oedd yn adeiladu trwyddo ac yn apelio'n fawr iawn."

templatelliw.indd 12 19/5/09 10:24:24

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

## Urdd y Benywod

Daeth y tymor i'w derfyn eleni eto drwy gynnal noson gymdeithasol yn Nantyrarian. Bu Nerys Daniel yn sôn am ei gwaith fel Nyrs Filfeddygol a chafwyd llawer o drafod ynglŷn â fel mae y proffesiwn newydd hwn wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mwynhawyd pryd blasus o fwyd wedi ei baratoi gan y staff yn Nantyrarian. Diolchodd Nancy Evans i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a throsglwyddodd yr awenau i Carol Marshall. Trosglwyddwyd siec o £620.00. i Gronfa Melindwr Eisteddfod yr Urdd 2010, arian a dderbynniwyd drwy gynnal Bore Coffi, potel arian Irfon Meredith a Canu Carolau.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Eirlys Davies, Caehaidd, a'r teulu ar farwolaeth ei chyfnither Gwyneth Harris yng nghartref Abermad ar ôl cystudd eithaf hir. Mawr fu gofal Eirlys, Margaret, Ann a Delyth ohoni trwy gydol yr amser. 'Roedd Gwyneth yn adnabyddus iawn i bawb yn yr ardal gan ei bod yn treulio llawer o amser yng Nghaehaidd ac yn aelod ffyddlon o Urdd y Benywod am nifer o flynyddoedd. Treuliodd rhan fwyaf o'i hoes yn ne ddwyrain Lloegr ond ar ôl iddi golli ei gŵr penderfynodd ddod i fyw i Gapel Bangor. Bu yn hapus iawn yn byw yng Nghefn Melindwr am dros ugain mlynedd. Bu yn aelod gweithgar iawn o Sefydliad y Merched, Clwb Sion a Sian a Pwyllgor y Neuadd ac mi 'roedd wrth ei bodd yn mynd ar dripiau tramor ac o amgylch y wlad. Dirywiodd ei hiechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mi 'roedd yn falch iawn o gael treulio ei Nadolig olaf gyda'r teulu yn Hywelfan.

## Statkraft

Bu penwythnos Calan Mai yn un brysur iawn yng Nghwmrheidol. Dydd Gwener oedd diwrnod Croeso Statkraft ar ei newydd wedd. Gwnaethpwyd yr agoriad swyddogol gan Bennaeth y Cwmni o Norwy ac yna bu grŵp gwerin o'r wlad yn diddanu y gynulleidfa. Statkraft yw y Cwmni ynni mwyaf yn Norwy a Rheidol yw yr orsaf gyntaf o dan ei rheolaeth yn y wlad yma a nawr maent yn gobeithio ehangu i Ewrop. Dydd Sadwrn cynhaliwyd diwrnod o hwyl ar gaeau Statkraft gydag elw y diwrnod yn mynd i'r Ambiwlans Awyr.

## Trec Ceffylau

Dydd Llun Calan Mai trefnodd Nerys Daniel a Phwyllgor Melindwr Eisteddfod yr Urdd 2010 drec ceffylau yn cychwyn o Gwmrheidol. Daeth tua 50 o geffylau o bob cwr o'r sir a thu hwnt ac er bod y tywydd yn anffafriol mi wnaeth pawb fwynhau eu hunain ar y deg milltir o reid o amgylch Cwmrheidol ac Ystumtuen. Llwyddwyd i godi £600 i gronfa Melindwr. Diolch i bawb a fu yn stiwardio, y cyfraniadau at y bwyd oedd yn disgwyl y marchogion gwlyb ond hapus yn ôl, ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus.



Aelodau o Urdd y benywod ar y stondin gacennau diwrnod agored Statkraft. Ymddiheuriadau i'r aelodau oedd heb gyrraedd pan dynnwyd y llun.



Abigail Barnett o Statkraft a Mair Stanleigh yn gweithio allan sut i weithio un o'r modelau newydd yn y Ganolfan Groeso bore yr agoriad swyddogol

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

ytincer@googlemail.com

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffon (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# "Mae ein cymdeithas fodern yn cynhyrchu gormod o wastraff. Mae'n rhaid gwneud mwy o ymdrech i ailgylchu".

Gyfeillion, credaf fod y gwastraff a gynhyrchir gan ein cymdeithas ni heddiw yn hollol anfoesol. Ac yr ydych chi, pob un ohonoch, yn rhan o'r afradlonrwydd hwn. Mae adnoddau'r byd yn gyfyngedig a dylem fod yn ofalus ynglŷn â'u defnydd. Ond os edrychwn o'n cwmpas, yr hyn a welwn yw pobl yn treulio nwyddau ar raddfa nas gwelwyd mo'i thebyg erioed o'r blaen ac yn cael eu hannog i wneud hynny gan gwmniau masnachol. Prynwch fwy ... prynnwch ddau am bris un ... prynwch ragor eto ... newidiwch am hwn ... taflwch yr hen un i ffwrdd ... hwn yw'r diweddaraf sy'n rhaid ei gael ... Ceir pwysau o bob cyfeiriad i brynu mwy a mwy o bethau ac yn sgil hynny, wrth gwrs waredu'r hen bethau. Yr ydych chi i gyd, ffrindiau, yn cael eich dylanwadu gan hyn ac nid ydych yn eich anwybodaeth neu eich difaterwch yn gwneud digon i geisio arbed adnoddau prin y byd.

Pam ddylwn i boeni am ailgylchu, meddech chi. Mae'r byd wedi goroesi ers biliynau o flynyddoedd. Rhyw chwiw ddiweddar yw'r holl swnian am ailgylchu. Wel gynulleidfa, fe esboniaf pam i chi yn awr. Ffenomen ail hanner yr ugeinfed ganrif yw'r ysfa drachwantus am fwy a mwy o nwyddau. Cyn hynny byddai nwyddau yn cael eu creu i bara cyhyd ag oedd yn bosibl. Nid oes ond eisiau meddwl am hen greiriau megis yr hen ddreserau Cymreig, clociau tad-cu, cypyrddau deuddarn a'r dillad cywrain o ansawdd aruchel sydd wedi goroesi o gyfnod Oes Fictoria a chynt. Ond beth am heddiw? A fydd y cadeiriau simsan a brynir heddiw o IKEA neu'r dillad rhad a welir mewn siopau fel "New Look" yn cael eu hedmygu gan ein disgynyddion ymhen canrifoedd? Go brin!! "A geir yn rhad a gerdd yn rhwydd" medd yr hen ddihareb, a gwir hynny. Pâr o esgidiau â'r sodlau wedi treulio? Mynd â nhw at y crydd i'w trwsio? Peidiwch â bod yn ffôl. Llawer cyflymach ac nid llawer drutach fyddai prynu pâr newydd. Taflwch nhw, taflwch nhw i ffwrdd, rhowch nhw yn y bin! Beth am y siop esgidiau enfawr sydd wedi agor yn y dref yn ddiweddar? Maent yn gwerthu esgidiau am ddeg punt! A beth am gewynnau babanod? Pwy heddiw sydd yn trafferthu i olchi cewynnau pan fedrwch brynu cewynnau parod y medrir eu taflu i ffwrdd? Ffaith brawychus ynglŷn â'r cewynnau hyn yw eu bod yn cymryd pum can mlynedd iddynt bydru, oherwydd y defnydd arbennig a gynhwysir ynddynt er mwyn amsugno gwlybaniaeth.

Rydym yn byw, ffrindiau, mewn oes lle teflir popeth i ffwrdd.

Yn ddiweddar caewyd drysau siop ddillad enwog B.J.Jones yn nhref Llanbedr Pont Steffan ar ôl bod yn masnachu am fwy na deg mlynedd a thrigain. Wrth gael ei gyfweld gan ohebydd o'r *Western Mail* dywedodd y perchennog, a oedd yn ei siathdegau erbyn hyn, "Pan ddechreuais werthu dillad 'roedd menywod yn prynu cotiau ffwr am £2,000, a phryd hynny 'roedd fy nhŷ yn werth £2,500. 'Roeddent yn pasio'r gôt ymlaen i'r genhedlaeth nesaf. Heddiw mae pobl eisiau prynu côt am £10, ei gwisgo ychydig droeon a'i thaflu i ffwrdd". Nid wyf am funud yn awgrymu eich bod yn talu mwy na gwerth eich tŷ am un gôt — tipyn o gamp gyda phrisiau tai fel y maent heddiw!! Ond byddai prynu llai a pharchu mwy yn llawer caredicach i adnoddau'r ddaear.

A beth am ffasiwn, gynulleidfa? Fel rhan o brysurdeb ynfyd y bywyd modern, yn fy marn i, mae ffasiwn yn newid yn llawer rhy gyflym. Mae'r dillad a oedd yn ffasiynnol chwe mis yn ôl yn awr yn hen ffasiwn. A ydych newydd brynu sgert steil sipsi sydd wedi bod yn y siopau yn ddiweddar? Wel efallai na chewch gyfle i'w gwisgo, erbyn hyn niod yw mwyach yn ffasiynnol, dillad wedi eu teilwra yw'r diweddaraf yn awr yn ôl y golofn ffasiwn yn y papur y Sul ddiwethaf. A welsoch chi'r arwydd arwerthiant, tri dilledyn am ddeg punt? Y steil ar fin mynd allan o ffasiwn. Beth am brynu ac yna eu gwaredu o fewn rhyw fis neu ddau? Maent mor rhad.

A dyna chi wedyn dechnoleg, gyfeillion. Yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf mae technoleg wedi datblygu mor gyflym fel bod pawb ymron yn berchen ar ffonau symudol a chyfrifiaduron erbyn hyn. O ie, a chamerâu digidol, iPod, cliniaduron ac ati. Mae ffôn symudol a oedd yn newydd rhyw bedair mlynedd yn ôl, yn edrych fel rhywbeth allan o amgueddfa! Ydy, mae hi'n gweithio ond a fyddech chi yn fodlon cael eich gweld yn ei defnyddio o flaen eich ffrindiau? Byddai'r fath declyn deinosoraidd yn destun gwawd. Heddiw, mae'n rhaid cael ffôn symudol sydd yn medru tynnu lluniau, chwarae gêmau, gwneud fideos ac sy'n cynnwys y wê.

Beth sydd o'i le ar newid pethau'n aml, meddech chi? Mae'n hwyl cael dillad newydd bob pythefnos, y ffôn symudol ddiweddaraf bob pen-blwydd, a dodrefn newydd i ddilyn y ffasiwn diweddaraf. Mae popeth yn rhad, mae'r arian gennym yn y gymdeithas da ei byd sydd ohoni. Pam ddylem ni roi clwt ar dwll ar ddilledyn, neu fynd i'r drafferth o drwsio sychwr gwallt sydd wedi torri? Fe brynaf bethau newydd. Mae'n hwyl. Mae'r siopau lliwgar yn llawn nwyddau rhad i'n denu. I ffwrdd â ni! Oeddech chi'n gwybod fod arolwg yn ddiweddar wedi dangos mai siopa yw prif weithgaredd hamdden pobl gwledydd Prydain? Mae angen gwario medden nhw i helpu meri-go-rownd yr economi i droi a throi a chadw pawb yn hapus a phawb mewn gwaith. Beth sydd o'i le felly ar "siopa hyd syrthio" neu "hyd syrffed"?

Wel, fe ddywedaf wrthoch beth. Y sbwriel a'r gwastraff a achosir wrth daflu pethau i ffwrdd. Yr ydych yn gosod eich biniau allan, yn orlawn o bob math o sbwriel ac mae loriau'r Cyngor yn dod i'w casglu gan adael biniau gwag yn barod i'w llenwi eto. Nid ydych yn meddwl mwy am y peth. Ond mae'r safleoedd claddu sbwriel yn dechrau llenwi. A beth fydd yn digwydd wedyn? Problem ddiweddar iawn yn hon yn hanes y byd, problem y trigain mlynedd ddiwethaf ac mae angen gweithredu ar unwaith.

Yn gyntaf, mae angen i lywodraeth y Cynulliad a San Steffan gymryd y broblem hon o ddifrif. Mae Senedd Ewrop ar fin cyflwyno trethi ar y sbwriel a gleddir mewn safleoedd er mwyn annog llai o gladdu sbwriel. Mae hyn yn ddechreuad. Ond ni theimlaf fod digon yn cael ei wneud. Yn Iwerddon er enghraifft, mae'r llywodraeth yno wedi gosod treth ar fagiau plastig mewn archfarchnadoedd. Codir tâl amdanynt felly. Ym Mhrydain mae'r archfarchnadoedd yn hael iawn gyda'u bagiau plastig. Ceir ambell siop fwy moesol na'i gilydd er enghraifft siopau'r Co-op sydd yn cynnig bagiau plastig sydd yn pydru o fewn dwy i dair blynedd ar ôl eu claddu. Ond yn fy marn i mae angen cymryd camau pendant gwirfoddol gan y Llywodraeth i osgoi'r fath wastraff a gorfodi pobl i ailgylchu mwy. Mae'r Llywodraeth bresennol wedi bod yn edrych ar ddulliau o ddelio â gwastraff modern ac un dewis a awgrymwyd ganddynt oedd llosgi gwastraff mewn ffwrnesi mawr. Byddai hyn yn gwaredu gwastraff ond ar ba gost gyfeillion? Beth am y difrod i'r amgylchedd a'r haen osôn? Mae gwlad China yn cymryd llawer iawn o wastraff electronig gwledydd y Gorllewin ac yn defnyddio metalau ohonynt ac yn llosgi'r hyn na allant ei ddefnyddio. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod cemegau gwenwynig yn cael eu rhyddhau i'r amgylchedd, heb sôn am fod yn andwyol i iechyd y bobl sydd yn gysylltiedig â'r gwaith. Dyna broblem arall, ond ni wnaf ddilyn y sgwarnog arbennig honno yn awr.

Credaf hefyd bod cyfrifoldeb ar yr awdurdodau lleol. Mae rhai ohonynt yn cymryd camau bychain i geisio delio â'r broblem. Maent yn eu doethineb yn darparu banciau hwnt ac yma ar gyfer gwydr, caniau, poteli, papurau newydd ac ati. Ond nid ydynt o fewn cyrraedd pawb, mae angen defnyddio car i gludo defnyddiau yno, sydd eto'n ddrwg i'r amgylchedd, ac nid yw'n olygfa anghyffredin i weld y banciau hyn yn gorlifo, gyda phobl yn gadael bagiau plastig yn llond poteli ac ati wrth eu hymyl. Mae hyn yn dangos ewyllys ar ran y cyhoedd i ailgylchu. Nid yn unig fod hyn yn edrych yn anniben ond mae hefyd yn beryglus petai'r gwydr yn torri. Mae'r ateb yn syml — mae angen i'r Cyngor Sir neu bwy bynnag sydd yn gyfrifol wacau'r banciau yn amlach.

Mae'r ffaith fod y banciau yn gorlifo yn dangos ewyllys ar ran rhai o'r cyhoedd beth bynnag i ailgylchu. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar iawn wedi dechrau cynllun arbrofol mewn rhannau o'r sir sydd yn golygu fod bagiau plastig tryloyw yn cael eu gadael ar gyfer eu llenwi â defnyddiau penodol ar gyfer ailgylchu. Maent yn cael eu casglu gyda'r sbwriel arferol. Mae hwn yn gam pwysig ond nid oes unrhyw orfodaeth i wneud hyn. Bydd rhai pobl yn sicr yn rhy ddiog i ddidoli eu sbwriel ac yn parhau i daflu popeth yn ddigydwybod. Credaf fod gorfodaeth yn aorfod yn y pen draw i ddelio â phroblem sbwriel ac ailgylchu.

Credaf fod bai ar gwmniau masnachol, nid yn unig am ddenu pobl i brynu mwy a mwy o bethau diangen ond hefyd am orlapio pethau. Rwy'n siwr fod pob un ohonoch yma wedi prynu nwyddau sydd wedi eu gorlapio. Meddyliwch am yr holl sbwriel a deflir i ffwrdd ar ôl y Nadolig. Popeth yn cael eu gwerthu mewn

bocsys gyda gormodedd o seloffen a phapurach. Yn yr hen amser byddai siwgwr, blawd a nwyddau sych yn cael eu cadw mewn sach ac yn cael ei mesur a'u gwerthu yn ôl yr angen. Byddai'r prynwr yn eu cludo i ffwrdd mewn bag papur neu gynhwysydd o'u heiddo hwy. Byddai llaeth yn cael ei werthu o gert gyda'r prynwr yn dod â'r siwg ei hun. Wedi hynny byddai poteli llaeth gwydr yn cael eu casglu o garreg y drws gan y dyn llaeth ar gyfer eu glochi a'u hailddefnyddio. Erbyn heddiw mae'r rhelyw o bobl yn prynu llaeth mewn cartonau mewn archfarchnadoedd. Meddyliwch am y nifer o'r cartonau hyn a ddefnyddir yng ngwledydd Prydain bob dydd!! Teimlaf fod cyfrifoldeb moesol ar y cwmniau masnachol hyn i geisio lapio nwyddau gan ddefnyddio cyn lleied o adnoddau â phosibl, ac mewn defnyddiau sydd yn hawdd eu hailgylchu. Mae cwmniau fel y "Body Shop" yn annog cwsmeriaid i ailgylchu cynhwysyddion eu cynnyrch. Eto, ni ellir dibynnu ar ewyllys da cwmniau o'r fath. Mae angen cymryd camau i'w gorfodi os nad ydynt yn fodlon gwneud hynny'n wirfoddol.

Gobeithio i mi lwyddo i agor eich llygaid a'ch deffro o'ch difaterwch, a'ch argyhoeddi o'r broblem go iawn hon. Ond yn hytrach nag arswydo mae yna gamau pendant y medrwch chi yn ogystal â'r llywodraeth, yr awdurdodau lleol a'r cwmniau masnachol eu cymryd. Mae gan bob un ohonoch eich rhan i chwarae yn hyn o beth. A ydych yn ailgylchu popeth y medrwch? A ydych yn didoli eich sbwriel ac yn cludo defnyddiau i'r banciau ailgylchu? A ydych yn mynd â'ch hen ddillad i siopau elusen yn hytrach na'u taflu? Prynwch ddiladd o ansawdd a fydd yn para'n hirach. Gwrthodwch brynu nwyddau sydd wedi eu gorlapio. Gofynnwch i'r dyn llaeth ddod â llaeth i'ch tŷ bob bore mewn poteli gwydr. Trwsiwch bethau yn hytrach na'u taflu i ffwrdd. Rhowch bwysau ar gwmniau masnachol neu eich awdurdod lleol i wastraffu llai ac ailgylchu mwy. Chi yw'r treulwyr. Chi yw'r cwsmeriaid. Gennych chi mae'r pŵer. Chi fydd yn medru newid pethau. Arnoch chi mae'r cyfrifoldeb am ddyfodol ein planed. Gwnewch rywbeth nawr, da chi, cyn ei bod yn rhy hwyr.

**Carys Mair Davies**

Cyfansoddiad buddugol 'Erthygl i bapur bro' yn Eisteddfod Penrhyn-coch

## COLOFN MRS JONES

Y mae gennym ni i gyd ein syniad personol o beth sydd yn hardd mewn pobl a lleoedd. Dyna paham fod bran i fran i bawb ohonom a bod dros naw deg y cant ohonom yn priodi a dyna paham fod rhai yn mwynhau golygfeydd dinesig ac eraill yn mwynhau mynyddoedd a dyffrynnoedd. Mae'r ymsyniad yma yn beth hollol bersonol ac yn cael ei greu ynom dan ddylanwad ffactorau megis magwraeth a phrofiad. Os oedd gan eich rhieni - neu eich hoff riant - lygaid glas, yna fe'ch cyflyrrwyd chi o oed cynnar iawn i gysylltu llygaid glas a chariad ac, o'r herwydd, mi rydech chi'n debygol iawn o briodi rhywun llygatlas. Rwan, mae'n rhaid ychwanegu, wrth gwrs, mai egwyddor gyffredinol yw hon cyn i bawb sydd yn ei gwrthbrofi foddi'r Tincer gydag enghreifftiau! Fel pob egwyddor, felly, y mae enghreifftiau sydd yn ei dymchwel. Weithiau, yr egwyddor honno sydd yn pennu mai'r anghyfarwydd sydd yn ddeniadol sydd ar waith, dyna paham fod pobl y wlad eisiau byw mewn dinas a phobl y ddinas eisiau byw yn y wlad. Ond, at ei gilydd,yr hyn sydd yn gyfarwydd inni sydd yn hardd ac fe bennir harddwch gennym yn ôl ein safonau a'n profiadau unigol ni ein hunain.Y mae estheteg yn beth personol iawn.

Ond nid yw pethau cweit mor syml a hynna. At hyn, fe ellid ychwanegu ffactor arall, yr hyn a ddysgir inni am harddwch. Cymerwch Barbie,er enghraifft, y mae ffigwr a siap Barbie yn ddistylliad o'r hyn a ystyrir yn ddelfrydol mewn harddwch merch, fe'i gwnaed felly yn gwbl fwriadol fel y gwerthai am ei bod yn apelio at bob merch fach. Ac y mae cenhedlaeth cyfan o ferched wedi eu magu i feddwl mai dyma sut y dylent hwy edrych sydd, yn ei dro, wedi arwain at ormod o ddiddordeb mewn golwg a diwyg ac at gynnydd clefydau megis anorecsia ymysg y rhai nad oes ganddynt obaith mul mewn Grand National o ymdebygu i Barbie heb ymdrech a hunan ymwadiad. Yn ei ffordd blastig hi ei hun, fe ellid dadlau fod perffeithrwydd difrycheuyn y ddol wedi bod mor andwyol i ferch a gynnau i hogiau bach - ac eto ni feddyliodd neb am ei gwahardd hi.

Yn fwy diddorol, efallai, bu i Barbie effaith arall ac y mae hwn yn anos i'w fesur oherwydd ei bod hi ei hun yn adlewyrchiad o'r hyn a ysytyrir yn ddelfrydol, a'r effaith hwnnw yw perswadio hogiau ei bod hi'n gwbl bosibl cael eu Barbie eu hunain o gig a gwaed, ffactor arall sydd yn cyfrannu at yr hyn a nodais yn y paragraff olaf. A bwydir yr holl gysyniad hwn fod harddwch delfrydol yn beth y gellir ei gyrraedd a'i gynnal gan harddwch merched fel modelau a pherfformwyr.

Nid yw hyn, ynddo ei hun, yn broblem hyd oni roddir y fath bwysau ar ferched i fod yn brydferth fel bod eu hiechyd yn dioddef neu y dechreuir meddwl fod yn rhaid bod yn hardd i fod yn dalentog. Rwan, nid talent yw harddwch ond mater o lwc a geneteg ac ymroddiad ac nid yw pawb talentog yn hardd. Ac ni ellir meddwl fod talent neu allu rhywun yr un mesur a'i harddwch. Synnwyr cyffredin, meddwch, a phwy sydd yn meddwl fel arall? Mi rydw i am ateb y cwestiwn yna trwy ofyn i chi ystyried ymateb y cyfryngau i Susan Boyle ar Britain's got talent. Nid yw Susan Boyle, mwy na finnau,yn bictiwr o harddwch ac nid yw, ychwaith wedi arfer rhyw lawer a gwisgo i fyny ac ymbincio. Pan gerddodd hi ar y llwyfan, fe ddechreuodd y gynulleidfa anesmwytho a gallech weld y beirniaid yn paratoi i'w gwrthod. Gallech eu gweld yn meddwl beth sydd gan beth fel hyn i'w gynnig. Ond fe gawsant ail fudr, un ag oll, oherwydd fe fedr Susan Boyle ganu ac fe gawson mi oll wers nad yw harddwch yn pennu talent a bod ystyried fel arall yn ffordd gibddall all arwain at golled.

A beth oedd ymateb y cyfryngau i'r wers? Troedio llinell fain iawn rhwng ei chanmol a'i chollfarnu. Defnyddiwyd y ffaith ei bod yn wyryf yn ei herbyn trwy awgrymiad a heb ddweud dim yn benodol ond yr is neges hyglyw oedd nad oedd neb wedi gweld ei wyn ynddi a'i bod felly yn ddinesydd eilradd. Ond a wyr y cyfryngau hyn fel ffaith? Efallai fod byw ei hun yn ddewis y mae hi ei hun wedi ei wneud o'i bodd a hynny ar ôl bod fel magnet i'r rhyw arall.Chi gofiwch yr hyn a ddywedodd Agatha Christie y gall merch hardd gael ei hanwybyddu gan ddynion sydd yn tyrru at ferch blaen am fod y ferch blaen wedi dysgu fod yn rhaid iddi fod yn gwmni da ac am mai peth od yw '*sex appeal*'! Ac ail arf y cyfryngau oedd dilorni y ffaith iddi ddechrau lliwio ei gwallt ac ati. Hynny yw, mae'n amlwg na all yr anolygus ennill. Os ydynt yn bodloni i'r drefn, maent ar fai; os ydynt yn trio,maent yn destun sport.A dydi hynny ddim yn deg.

Ar ryw ystyr, mater gweddol ysgafn yw meddwl na all neb plaen fod a thalent.Ond y mae meddwl fod rhywun hyll yn euog o drosedd am ei fod yn hyll yn fwy sinistr.Ond yr wyf yn ofni yn fawr y gall hyn fod yn digwydd eisoes gyda'r darlun a'r sylwebaeth am y dyn y maent yn chwilio amdano parthed diflaniad Madeleine Mc Cann. Mae'n gwbl wir nad yw'r darlun ohono a grewyd gan dyst yn ddarlun deniadol ond nid yw hynny yn golygu ei fod yn euog. Ond os yw yn ddiniwed, ofnaf yn fawr y bydd yn cael trafferth enbydus i rofi hynny. Mor wir yw dihareb y Sais, 'Dont judge a book by its cover!'

## Buniau ailgylchu Neuadd y Penrhyn

Dyma ffigyrau pwysau y buniau am y ddwy flynedd ddiwethaf

| 2007 - 08 | | 2008 - 09 | |
|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 4.169 tunnell fetrig | Chwarter 1 | 4.804 tunnell fetrig |
| Chwarter 2 | 4.290 tunnell fetrig | Chwarter 2 | 4.553 tunnell fetrig |
| Chwarter 3 | 4.583 tunnell fetrig | Chwarter 3 | 4.449 tunnell fetrig |
| Chwarter 4 | 4.505 tunnell fetrig | Chwarter 4 | 4.086 tunnell fetrig |



## C.FF.I. CEREDIGION

www.yfc-ceredigion.org.uk

**Penwythnos Cymraeg Cymru**
Teithiodd nifer o aelodau'r Sir i Rhuthun i gystadlu yn y gystadleuaeth Pantomeim, Cwis a'r Siarad Cyhoeddus. Cafwyd cryn lwyddiant gyda Sir Ceredigion yn ail ar ddiwedd yr holl gystadlu. Dyma'r canlyniadau:-
Pantomeim
Clwb Pontsian yn 3ydd
Einir Ryder a Teleri Morris — Actoresau Gorau
Blaenoriaethau Technegol — Pontsian yn 1af

**Siarad Cyhoeddus**
Dan 14 = cydradd 3ydd
Dan 16 = cydradd 2il
Dan 21 = 1af
Dan 26 = 2il
Llongyfarchiadau mawr i bawb ac yn enwedig Catrin Jones, Mydroilyn am ennill y Siaradwraig Orau dan 21 oed.

**Cwis Iau y Sir**
Bu cystadlu brwd rhwng y clybiau yn y gystadleuaeth hon gyda 28 o dîmau'n cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i glwb Llanddeiniol am ddod yn fuddugol gyda Llangwyryfon B yn ail a Llangwyryfon A yn drydydd.

**Diwrnod Maes y Sir**
Cynhaliwyd ein Diwrnod Maes yn Nhregaron ar Ddydd Sadwrn y 4ydd o Ebrill gyda cynnydd yn y nifer o aelodau a oedd yn cystadlu. Dyma'r canlyniadau:-
Effeithlonrwydd gyda Diogelwch — Troed-yr-aur
Ffensio — Tal-y-bont
Sialens ATV — Llangwyryfon
Stocmon Hŷn — Llanwenog
Stocmon Iau — Caerwedros
Diogelwch Iau — Llanwenog
Sialens Natur Iau — Caerwedros
Clwb Buddugol — Llanwenog; 2il — Caerwedros; 3ydd — Llanddeiniol

Cynhaliwyd hefyd y gystadleuaeth Hyrwyddo Clwb a llongyfarchiadau i glwb Llanwenog ar ddod yn fuddugol. Dymuniadau gorau i chi wrth gynrychili Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Rhodri Morris o glwb Pontsian ar gael ei ddewis yn Aelod Iau y Flwyddyn ac i Alwen Jones ar gael ei dewis yn Aelod Hŷn y Flwyddyn. Pob hwyl iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Digwyddiadau**
Mehefin 6 — Rali'r Sir ar fferm Gafryw, Mydroilyn
Mehefin 19 — Tynnu'r Gelyn yng Nghlwb Rygbi Aberaeron
Mehefin 21 — Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Aberaeron
Mehefin 28 — Chwaraeon Cymru yn Aberhonddu


**RHODRI JONES**
**Brici a chontractiwr adeiladu**
**07815 121 238**
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street



CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
**Croeso i blant o 2½ oed i fyny.**
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
**CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU**
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i riant.


## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 21 Ebrill, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd saith o'r cynghorwyr eraill a'r Clerc yn bresennol; derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Trefor Davies, Melvyn Evans a Tegwyn Lewis a'r Cynghorydd Sir. Roedd Melvyn Evans hefyd wedi rhoi gwybod na allai, oherwydd pwysau gwaith, ymgymryd â dyletswyddau Cadeirydd y Cyngor yn 2009/10, felly byddai'n rhaid dewis rhywun arall yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

Adroddwyd fod y corff amgylcheddol RIGS Canolbarth Cymru wedi cynnig darparu bwrdd gwybodaeth newydd am greigiau'r ardal yng Nghwmsymlog yn lle'r un oedd yno'n awr, a hynny am ddim, ond byddai angen ei osod yn ei le. Penderfynwyd derbyn y cynnig, ac awdurdodi'r Clerc i holi am gostau. Dywedodd y Clerc y byddai'n holi ymhellach sut oedd mynd ati i wneud cais am gymorth i wella darpariaeth band eang yn yr ardal. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r hyn oedd yn y brif ddogfen am y Cynllun Datblygu Lleol a oedd allan am ymgynghoriad gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth faith ar y materion hyn, ac awdurdodwyd y Cadeirydd i lenwi'r holiadur a'i ddychwelyd ar ran y Cyngor.

Adroddwyd fod Dafydd Sheppard, Kari Walker a'r Clerc wedi bod mewn cyfarfod yn Aberystwyth ynglŷn â'r bwriad i greu maes parcio-a-theithio yn Fferm Pen-glais. Y bwriad oedd iddo gael ei ddefnyddio gan staff y Brifysgol a hefyd gan staff yr Ysbyty tra oedd gwaith adeiladu'n digwydd ar safle'r Ysbyty. Ni fyddai ar gael ar gyfer defnydd cyffredinol, ddim ar y dechrau beth bynnag. Adroddodd y Cadeirydd am gyfarfod chwarterol Pwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru yn Aberaeron, a chytunodd y Cyngor i gefnogi Un Llais Cymru yn ei alwad ar i'r Post Brenhinol roi'r gorau i ddefnyddio 'Dyfed' mewn cyfeiriadau post. Penderfynwyd ailenwebu Kari Walker a Richard Owen fel cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor ar gyfer 2009/10.

Yn dilyn gwahoddiad gan y Cyngor Cymuned, adroddwyd fod Elin Jones, y Gweinidog Materion Gwledig a'r AC lleol, wedi dod i Ben-bont i weld cyflwr ochr y ffordd, yn enwedig rhwng yr Ysgol a Phendorlan. Ar yr ochr nesaf at yr afon roedd y tir yn colli'n ddifrifol fel nad oedd yn gallu cynnal ffens ysgafn mewn mannau. Addawodd y Gweinidog gysylltu â'r Cyngor Sir; yn y man lleiaf roedd angen cael arwyddion ar fyrder i rybuddio gyrwyr rhag y peryglon.

Daethai llythyr oddi wrth yr Aelod Seneddol ar ran un o drigolion Penrhiwnewydd yn holi am y posibilrwydd o gael goleuadau ychwanegol yn yr ardal honno. Penderfynwyd ateb trwy ddweud y byddai gosod un lamp yn unig yn costio £4,000, ac na allai'r Cyngor fyth gyfiawnhau gwariant o'r fath ar hyn o bryd. Trafodwyd dogfen ymgynghorol a ddaeth oddi wrth Airtricity, y cwmni datblygu melinau gwynt, a llanwyd yr holiadur a oedd yn gofyn am farn y Cyngor am flaenoriaethau gwariant yn y gymuned a allai ddeillio o'r cynllun.

Roedd Adran Amgylchedd y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod eu bod wedi delio â phroblem gorlif carthion ym Mhen-bont, ond nid dyna oedd y farn yn lleol, a nodwyd fod problem arall mewn man cyfagos. Penderfynwyd holi ymhellach. Yn dilyn cais o Gefn-llwyd, penderfynwyd holi'r Cyngor Sir am fin halen i'r ardal honno, a hefyd i ofyn unwaith yn rhagor am finiau yng Nghwmerfyn, ar riw Cwm Isaf ym Mhen-bont, ac yn agos i Gwar-ffin, Penrhiwnewydd.

Cyflwynodd y Clerc y cyfrifon ar gyfer 2008/09. Cyfanswm yr incwm oedd £16,285 a'r gwariant yn £13,729, gan adael gweddill o £2,556. Cadarnhawyd y cyfrifon gan y Cyngor, llanwyd y ffurflenni pwrpasol a phenderfynwyd anfon yr holl ddogfennau perthnasol i'r Archwiliwr Mewnol. Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol: annedd ar dir drws nesaf i Hen Ysgol Trefeurig — gwrthodwyd; newid ac ymestyn Tŷ'r Ysgol, Trefeurig — caniatawyd; 44 Dôl Helyg, estyniad — caniatawyd. Ystyriwyd y cais canlynol: Dolwen, Penrhyn-coch, addasu cynlluniau — cefnogi'r addasiadau. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Hen Ysgol Trefeurig nos Fawrth, 19 Mai, gyda chyfarfod agored am 7.00pm a chyfarfod blynyddol y Cyngor am 7.30pm. Mae'r cofnodion llawn i'w gweld ar www.trefeurig.org.

## CYSYLLTWCH Â NI

ytincer@googlemail.com

## COLOFNYDD Y MIS



# Sara Huws

Ym mhle, fyddech chi'n dweud, ydych chi hapusaf? Allwn i ddim dweud yn siwr, ond mae cael sefyll yn chwarel gynoesol Carn Menyn, ger Trefdraeth, yn go agos i fi. I lawer, fodd bynnag, does dim lle tebyg i gartref pan fyddwch chi eisiau teimlo'n fodlon. Mae'n hen ystrydeb, ond tu hwnt i hynny, mae cartrefi, dim ots pa mor fyr eu hoedl, yn gallu bod yn llawn gwrthrychau a storïau diddorol, neu drysorau coll sy'n golygu bron dim, ar yr olwg gyntaf. Meddyliwch, er enghraifft, am gynnwys un o'r drariau 'na yn y gegin, sydd wedi'i lenwi gydag allweddi i gesys coll, hen sbectolau haul a bandiau elastig. Tra bod archaeolgyddion yn lloffa trwy'r hyn sydd wedi'i adael ar ôl mewn ôl troed adeilad neu feddrod arbennig, mae hanes cymdeithasol (neu hanes diwylliannol, os hoffech chi), yn edrych ar yr hyn mae pobl yn ei gadw o'u cwmpas o ddydd i ddydd, boed yn souvenirs, twls, dillad, neu offerynnau cerddorol.

Bydd raid i fi gyfaddau, yn fan hyn, fy mod i'n gweithio yn amgueddfa Sain Ffagan, ac felly'n cael y pleser achlysurol o gael ymchwilio i fywydau bob dydd pobl Cymru, weithiau - rhaid dweud - i lefel syfrdanol o fanwl. Nid syfrdanol am y rhesymau gorau bob tro, chwaith! Mae'r casgliad ar gael i ymchwilwyr o bob math, beth bynnag yw eu maes - offer deintydd, hetiau, neuaddau pentre', neu hyd yn oed fathodynnau, trwy yr oesoedd.

Mae'n rhyfedd cyrraedd adre' ar ôl diwrnod wedi'i dreulio'n edrych ar, a siarad am lwyau, a dim ond llwyau. Dro arall, treulio pnawn yng yn llofft dywyll castell Sain Ffagan, yn didoli doliau cŵyr Fictorianaidd; rhai ohonynt â'u llygaid led y pen yn agored, wedi'u cadw dan glychau gwydr a gwe pry cop. Neu'r casgliad o hen boteli melltith, sydd, yn ôl coel gwerin, wedi'u llenwi â hoelion a dŵr gwrach (alla i ddim cadarhnau hyn - dwi ddim yn credu bod neb erioed wedi bod yn ddigon dewr i agor un o'r poteli!). Dyw'r rhan fwyaf o'r amgueddfa, a'r ardal o'i hamgylch, ddim mor llwm a lloft y castell, chwaith. Mae cael bod yn agos at dro'r tymhorau yn beth moethus iawn, o ystyried fy mod yn gallu clywed cerddoriaeth a sgrialu'r ddinas wrth ysgrifennu, 'nawr, mewn atig ty teras tal, ar un o briffyrdd Caerdydd. Rwyf wedi bod yn byw yma ers tair blynedd, nawr, ac mae'n ddinas ddymunol, er bod rhannau mawr o'i chanol dal yng nghanol gwaith adeiladu a datblygu enfawr.

Mae pensaernïaeth, a hanes ffurfiol adeiladau, yn un o'r meysydd gaiff ei ystyried yn un o'r lleia hygyrch yng Nghymru, a thu hwnt. Byddwn yn gosod y pwnc yn ail o dan gelf gysyniaethol yn ei allu i gorddi golygyddion diwylliannol papurau ceidwadol fel y Telegraph a'r Mail. Serch hyn, mae gennym ni i gyd ddealltwriaeth ohono, os ydym ni'n gwybod hynny ai peidio.

Rydym ni i gyd yn ymddwyn yn wahanol mewn canolfan siopa foethus, o'i gymharu â'r stryd fawr leol, er enghraifft, er mai 'r un yw'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Mae rhaglenni am bensaenïaeth wastad yn dibynnu ar wyneb cyfelligar, diddorol i'w cyflwyno - cymeriadau fel John Davies, neu Fred Dibnah hyd yn oed. Heb stori, neu ôl pobl, mae pensaernïaeth uchegeisiol yn gallu ymddangos yn ymwthiol a di-enaid, ac mae'n gallu corddi teimladau cryfion iawn. Cefais fy atgoffa o'r cynllun diffrwyth luniwyd i adeiladu tŷ opera uchelgeisiol, dan law Zaha Hadid, yma yng Nghaerdydd, a'r ymateb chwyrn a theimladwy gafodd ei gyflwyno yn erbyn y prosiect yn y cyfryngau ar y pryd. Mae tŷ opera 'da ni nawr yn y Bae; un pert, a gallwch chi weld perfformiad o opera safon rhyngwladol am bumpunt yno.

Nid adeiladau 'bob dydd' sydd i'w canfod yn y Bae erbyn hyn. Bu newid enfawr yn amgylchedd Tre Biwt yn y ddwy ddegawd ddiwethaf. Mae'n ddiddorol i nodi mai tynged adeiladau mewn cymunedau isel eu braint yw difodiant - maent yn cael eu dymchwel i wneud lle i bethau gwell. Does dim ond llond llaw o'r hen adeiladau diwydiannol ar ôl yn y Bae; llai fyth sydd yn goroesi o dai y teuluoedd oedd yn gweithio gerllaw. Mae hyn yn achosi penbleth i'r hanesydd, gan gynnwys ni yn Sain Ffagan - mae'r tai ar y safle bron oll yn cynrychioli ffordd o fyw gyfforddus, o'i chymharu â gwir amgylchiadau'r werin yng Nghymru. Does dim llawer yn goroesi o'u cartrefi nhw, na'u ffordd o fyw. Mae'r hyn sydd yn goroesi yn brin, yn bryfoclyd a phwysig. Maent hefyd ar gof a chadw ar gyrion y brifddinas: galwch draw i'w gweld rywdro. Neu'n well fyth, ewch i chwilota'n y drâr 'na'n y gegin am eich hanes cudd chi...

**Y mis nesaf : Cathryn Thomas**

## YSGOL PEN-LLWYN



Plant dosbarth 1 gyda'r mefus a blanwyd ganddynt

### Ymweliad yr Anifeilfa

Ar Ddydd Mawrth 28ain o Ebrill cafodd dosbarth 1 ymweliad gan yr Anifeilfa o'r Borth. Roedd y plant wrth eu bodd yn dysgu am ac yn cyffwrdd yr anifeiliaid. Ymysg yr anifeiliaid ddiddorol ddaeth i Ben-llwyn, roedd dwy neidr, gan gynnwys un peithon anferth, cwningen, bochdew, madfall a parrot.

### Gardd yr ysgol

Mae plant dosbarth un wedi dechrau ar y gwaith garddio.. Maent eisioes wedi plannu tatws, ffa dringo, pys, moron, radish a mefus. Yn ogystal â phlannu, maent wedi dechrau gwneud compost eu hunain, ac arbed dŵr mewn casgenni arbennig er mwyn dyfrio. Diolch yn fawr iawn i Patrick Lewis, un o gyn ddisgyblion yr ysgol, am ei holl waith caled yn ystod y gwyliau Pasg yn creu bocsys garddio, peintio'r ddwy sied a'r meinciau picnic. Diolch hefyd i Mr Elfed Lewis a Mr Richard Edwards am eu cyfraniad nhw.

### Disgybl newydd

Croeso cynnes i Carys Wyn Thomas â ymunodd a dosbarth un, ar ôl gwyliau'r Pasg. Dymunwn bob llwyddiant ag hapusrwydd i ti Carys yn ysgol Pen-llwyn.

### Trawsgwlad

Bu nifer o blant yr ysgol yn rhedeg Trawsgwlad yn ddiweddar. Amy Dryburgh a Tomos Evans oedd yn ein cynrychioli yn Llangrannog eleni. Gwnaethant yn dda iawn wir o ystyried y tywydd gwael ar y diwrnod.

### Pêl-droed

Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-droed a aeth drwodd i'r rownd derfynol eleni. Tîm Penrhyn-coch a orfu y tro hwn, ond roedd plant Pen-llwyn yn falch iawn o'u medalau. Da iawn chi.

### Gwasanaeth

Cafodd blant yr ysgol hanes Francis o Asisi gan y Parch John Livingstone mewn gwasanaeth boreol yn ddiweddar. Dewis da, a'r plant yn mwynhau yn fawr gan mai Pethau Byw yw thema'r tymor hwn.

### Coginio Pizza

Bu plant dosbarth dau wrthi yn coginio pizza fel rhan o'u gwersi Dylunio a Thechnoleg. Cawsant fwyta a gwerthuso eu pizza amser cinio.



Manon o Ddosbarth 2 gyda'i pizza.

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd

Yn dilyn Eisteddfod Ranbarth yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid mi fydd y Dawnsio Disgo, y Parti Cerdd Dant a'r Band yn cystadlu yn erbyn goreuon Cymru lawr yn y Brifddinas yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd. 'Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt ac yn llongyfarch pob aelod am gystadlu mor dda yn y Cylch a'r Sir.

## Ymweliadau Jambori

Mae'r ysgol yn parhau i fod yn brysur iawn; ar y 21ain o Ebrill, fe aeth 100 o blant o flynyddoedd 3, 4, 5, a 6 i Bontrhydfendigaid i fwynhau hwyl y Jambori. Yr Urdd sy'n cynnal y sesiynau cerddorol yma, ac y mae'r plant wrth eu bodd yng nghanol y miri.

## XLWales

Cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XLWales ar y 22ain ar 23ain o Ebrill. Mae Mr Collins yn ymweld â'r ysgol ddwywaith y flwyddyn er mwyn datblygu sgiliau technoleg a gwyddonol y plant. Mae'r plant yn mwynhau cwblhau y tasgau yn fawr iawn ac y mae gweithgareddau Mr Collins yn parhau i fod yn hynod o ddifyr.

## Penwythnos yn Llangrannog

Ar yr 8fed o Fai fe deithiodd 35 o blant blynyddoedd 5 a 6 i Langrannog am y penwythnos er mwyn profi a mwynhau nifer o weithgareddau difyr gwersyll yr Urdd.

## Chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm pêl-rwyd; fe enillodd y merched bencampwraieth cylch Aberystwyth yn ddiweddar gan guro pawb yn y gystadleuaeth. Dyma'r ail flwyddyn o'r bron i'r merched gipio'r darian. Gwych!

Cynhaliwyd cystadleuaeth trawsgwlad rhanbarth Ceredigion Yr Urdd ar y 25ain o Ebrill yn Llangrannog. Teithiodd 10 o blant o'r ysgol i'r gwersyll er mwyn cynrychioli cylch Aberystwyth. Llwyddodd pob un ohonynt i orffen y cwrs yn effeithiol a llongyfarchiadau mawr iddynt hefyd gan fod pob un ohonynt wedi llwyddo i orffen yn y dwsin cyntaf, Campus!

Ar y 28ain o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf.

Ar ddiwedd y dydd ac ar ôl curo 4 ysgol arall, llwyddodd tîm merched yr ysgol i gyrraedd rownd gyn derfynol y gystadleuaeth gan guro Ysgol Iau Aberteifi. O ganlyniad i hyn, aethant ymlaen i'r rownd derfynol gan guro'r Ysgol Gymraeg o dair gôl i un. Ardderchog!

Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn hefyd mewn grwp anodd iawn ond methu wnaethant o drwch blewyn i gyrraedd y rownd gyn derfynol. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

**TYSTEB**
**MRS LINDA JONES**

Bydd Mrs. Linda Jones yn gorffen fel athrawes yn yr ysgol ar ddiwedd tymor yr Haf. Mae hi wedi bod yn athrawes yn yr ysgol ers 22 o flynyddoedd.

Os hoffech gyfrannu tuag at y casgliad, anfonwch eich cyfraniad at Mr. Adrian Havard.

**Cyfraniad erbyn - 30/06/09**


Enillwyr yn yr Eisteddfod Gylch - Y Band


Enillwyr yn yr Eisteddfod Gylch - Dawnsio Disgo


Enillwyr yn yr Eisteddfod Gylch - Parti Cerdd Dant


Tim buddugol Ceredigion - Pêl-droed merched


Tim buddugol cylch Aberystwyth - Pêl-rwyd yr ysgol

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm o'r ysgol yn ail rownd o gwis llyfrau'r Llyfrgell. Daeth un o'r tîmau yn ail drwy'r Sir — Angharad Davies, Anwen Morris, Robert Wallace a Mared Pugh-Evans. Da iawn iddynt am eu dyfalbarhad ac i Gwenda Wallace unwaith yn rhagor am yr holl waith paratoi. Da iawn hefyd i Catrin Evans, Hope Powell-Jennings, Lisa Evans a Harri Read am wneud mor dda.

## Pembertons

Teithiodd llond bws o ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 i lawr i ffatri Siocled Pembertons yn ddiweddar. Tra i lawr yno cafwyd cyfle i wylio ffilm yn y sinema yn dangos y broses o fynd ati i wneud siocled. Symudwyd ymlaen wedyn i addurno siocled cyn dod at uchafbwynt y diwrnod sef bwyta siocled. Cyn gadael cafwyd cyfle i fynd i'r siop ac i brynu ychydig yn rhagor o siocled! Diolch i bawb a ddaeth gyda'r disgyblion i gynorthwyo ac i yfed y diod Siocled Poeth mawr! Diolch hefyd i yrrwr y bws am ei holl gymorth.

## Seiclo

Ar fore braf cyn y Pasg, gwelwyd beicio di-ri ar iard yr ysgol. Cafwyd llond iard o ddisgyblion yr Ysgol Feithrin a'r Dosbarth Derbyn wrthi yn codi arian drwy seiclo. Cafwyd llawer o hwyl gan bawb — yn cynnwys y staff a'r rhieni — wrth gyflawni'r orchwyl. Llongyfrachiadau i bawb a fu wrthi yn seiclo a diolch i bawb a fu wrthi yn goruchwylio ac yn hel noddwyr. Diolch i bawb a noddodd unrhyw un o'r disgyblion.

## Sgipio

Ar gychwyn tymor yr Haf, aethpwyd ati fel Cyfnod Allweddol 2 i godi arian tuag at achos da. Penderfynwyd codi arian tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Y dasg a osododd y disgyblion i'w hunain oedd sgipio noddedig am awr. Cafwyd cerddoriaeth i'w hannog a gwelwyd pob disgybl yn sgipio am o leiaf 15 munud yr un. Llwyddwyd i gadw i fynd am yr awr. Da iawn i bob un. Fel rhan o'r digwyddiad, aeth y disgyblion ati i hel noddwyr amrywiol a hyd yma, codwyd o leiaf £900. O'r swm anrhydeddus hyn, caiff yr ysgol gadw 20% i'w coffrau.

## Jambori

Gyda dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i Geredigion yn 2010, aeth holl aelodau'r Urdd o'r ysgol i fyny i Bafiliwn Pontrhydfendigiad i gymeryd rhan mewn Jambori. Arweinydd y Jambori oedd Gwenda Owen a'i band. Cafwyd gwledd o ganu a chanwyd yr hen ffefrynnau ynghyd âg ambell gan newydd, gan gynnwys Ceredigion 2010, sef cân swyddogol yr Eisteddfod.

## Eisteddfod Penrhyn-coch

Gwelwyd criw da o ddisgyblion yr ysgol wrthi yn cymryd rhan yn Eisteddfod Penrhyn-coch



Addurno'r siocledi cyn eu bwyta!!



Plant yr ysgol gyda cherddwyr yr Urdd 2010.

ar y nos Wener. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith arbennig a diolch i flwyddyn 6 a oedd yn bresennol am fodloni i fod yn rhan o seremoni Tlws yr Ifanc. Diolch i'r rhieni a ddaeth a'u plant i gefnogi'r Eisteddfod.

## Cerddwr o Fri

Braf oedd croesawu Mr Alan Elvitts o'r pentref atom yn ddiweddar. Daeth at y disgyblion i sôn am ei gynllun i gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Ceredigion, o Aberteifi i Ynys-las. Bu'n sôn wrth y disgyblion am ei daith ac am ei ddisgwyliadau dyddiol. Penderfynodd yna gasglu noddwyr i'w sbarduno gan addo cyflwyno'r elw i'r ysgol. Bu'n cerdded am bump diwrnod yn y tywydd gwlyb a gwyntog. Ar ddiwedd y daith cyflwynodd swm anrhydeddus o arian i'r ysgol. Os dymuna unrhyw un arall ei noddi, gellir cysylltu â'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i Mr Elvitts am ei holl ymdrech.

## Pêl-droed

Teithiodd dau dîm pêl-droed o'r ysgol i lawr i gaeau Blaendolau yn ddiweddar i gymryd rhan yng nghystadlaethau pêl-droed yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Bu'r meched wrthi'n chwarae yn galed a llwyddwyd i ennill nifer o gê,mau. Yn anffodus oherwydd iddynt golli yn erbyn Ysgol Iau Aberteifi, ni aethant drwodd i'r rownd derfynol. Da iawn iddynt am chwarae mor dda. Yn y gêmau i fechgyn roedd y stori yn go debyg. Er colli y gêm gyntaf i Ysgol Aberaeron, llwyddwyd i guro Ysgol Carreg Hirfaen a chael gêm gyfartal yn erbyn Ffynnon Bedr. Ar ddiwedd y rownd gyntaf aeth Penrhyn allan ar wahaniaeth goliau o 1. Anlwcus fechgyn. Er hynny, da iawn fechgyn.

## Hocis

Yn anffodus, cynhaliwyd rownd lleol Pencampwriaeth Hoci Cymru yn ystod y cyfnod hynny pan oedd blwyddyn 6 i ffwrdd yng Ngwersyll Glanllyn. Er hynny, daeth tîm o ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a un o blwyddyn 6 at ei gilydd i gystadlu. Chwaraewyd tair gêm galed yn erbyn Rhydypennau, Aberaeron a Llandysul. Yn anffodus ni aeth y tîm drwodd i'r rownd nesaf ond da iawn chi.



Charlotte Richmond yn defnyddio'i hud yn Pemberton's.

Penrhyn-coch 6 v Aberaeron 0
Penrhyn-coch 1 v Rhydypennau 2
Penrhyn-coch 2 v Llandysul 0

## Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i Matthew Merry a Harri Horwood. Teithiodd y ddau i lawr i Wersyll yr Urdd Llangrannog i redeg ym mhencampwriaethau y Rhanbarth. Llwyddodd Matthew i ennill y ras i fechgyn blwyddyn 4 a daeth Harri yn 15fed. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt.

Airtricity
Nant y Moch

Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad
**Fferm Wynt Nant y Moch**
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
**Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd**
Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
**Ystafell Haearn, Ffwrnais**
Dydd Iau 18 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
**Neuadd Penrhyn-coch**
Dydd Gwener 19 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
**Neuadd Goffa Tal-y-Bont**

Croeso cynnes i bawb.
Cyfle i wybod mwy am y cynllun.
**www.ffermwyntnantymoch.com**

# TASG Y TINCER

Diolch i bawb fu'n lliwio llun o'r glas-y-dorlan y mis diwethaf. Cafwyd lluniau gan rai sy'n enwau newydd i'r 'Tasg'! Roedd pob un ohonoch wedi defnyddio lliwiau arbennig iawn.

Dyma pwy fu'n lliwio: Ceri Ann Garratt, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Rhodri ac Alys Jones, Tŷ'r Banc, Bont-goch, Tal-y-bont; Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Thomas Dyer, y Deri, Goginan; Gwenllian King, 4 Maes y Garn, Bow Street; Nualla Ellis Jones, Old Vicarage, Capel Bangor; Lili, 11 Broncynfelin, Llangorwen; Ffion Wyn Roberts, 10 Carregwen, Bow Street.



Thomas Dyer


Ti, Thomas Dyer sy'n ennill y tro, ar dy ymgais gyntaf, rwy'n meddwl. Da iawn ti. Roeddwn yn hoff i'r adennydd coch a glas!

Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau Pasg. Roedd y tywydd yn hyfryd. A gawsoch chi gyfle i fynd allan ar eich beiciau a'ch scwters, ac i chwarae efo'ch ffrindiau? Fuoch chi ar lan y môr o gwbl? Roedd yn reit brysur ar draeth Ynys-las, gyda'r plant wrthi'n gwneud cestyll tywod ac yn hedfan barcutiaid. A ddaru rhai ohonoch fentro i'r dwr tybed?! Mae'n llawer rhy oer i mi, ond da iawn chi os fuoch chi'n nofio. Mi fwytais i lawer gormod o hufen ia dros benwythnos y Pasg! Lle braf iawn i fynd ar ymweliad yw'r ANIFEILFA yn y Borth. Ydech chi wedi bod yno? Mae'n anodd credu mai anifeiliaid a oedd arfer bod yn rhai anwes yw'r rhain. 'Falle bod gennych chi fochdew, byji, neu gi, ond meddylich am gael 'panther' neu deigar yn anifail anwes, gan fynd â nhw am dro ar dennyn trwy un o bentrefi'r Tincer! Yn aml, nid yw pobl yn meddwl faint y mae rhai anifeiliad yn medru tyfu, neu faint o fwyd a gofal y mae rhai eu hangen. Mae Anifeilfa'r Borth hefyd yn cymryd anifeiliaid o'r RSPCA ac o ganolfannau achub eraill, ac yn rhoi cartref diogel iddynt, ac mae modd i chi fabwysiadu rhai hefyd! Beth am edrych ar wefan yr Anifeilfa am stôr o wybodaeth: http://www.animalarium.co.uk/

Ond nid anifeiliaid ecsotig o wledydd tramor sy'n yr Anifeilfa'n unig, ond mae ganddyn nhw rai anifeiliaid fferm y mae modd i chi eu cyffwrdd a'u bwydo hefyd. Beth am fynd am dro yno?

Y mis hwn, mae genny ddau lun i chi i'w lliwio, sef tylluan a mwnci. A ydych wedi gweld y rhain yn yr Anifeilfa? Does neb yn gwybod sawl math o fwnci sydd yn y byd, am fod cymaint ohonynt! Beth yw eich hoff fath o dylluan? Nid wy' wedi gweld tylluan ers tro byd, ond rwy'n clywed ambell un yn y goedwig gyda'i chân. Ydech chi'n medru gwneud sŵn fel tylluan? Beth yw'r enw arall am 'dylluan' tybed? Ie, 'gwdi-hw' wrth gwrs!

Mae'n siwr y bydd nifer ohonoch yn mynd i'r Eisteddfod ym Mae Caerdydd ar ddiwedd y mis, naill ai ar drip, neu i gystadlu. Joiwch, a phob lwc i chi gyd!
Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE) erbyn Mehefin 1af Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed                Rhif ffôn

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr (duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 319 | MAI 2009